

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
28/2021
DYDDIAD CYHOEDDI:
24/03/2021

Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 3

Teitl: Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 3

Awduron: Eluned Glyn, Stuart Harries, Jennifer Lane a Sioned Lewis, Arad Research

Adroddiad Ymchwil Llawn: Glyn, E., Harries, S., Lane, J., Lewis, S. (2021). *Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant: Blwyddyn 3*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 28/2021.
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/gwerthusor-cynnig-gofal-plant-i-gymru-blwyddyn-3>

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Aimee Marks

Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: TrafodGofalPlant@llyw.cymru

Tabl cynnwys

Rhestr o dablau a ffigurau.....	1
Geirfa	2
1. Cyflwyniad	3
2. Methodoleg	9
3. Gweithredu'r Cynnig	16
4. Gwneud gwahaniaeth i Ddarparwyr	26
5. Gwneud gwahaniaeth i Rieni.....	35
6. Casgliadau ac Argymhellion.....	49
Atodiad A: Canllawiau Pwnc	54
Atodiad B: Arolygon	70
Atodiad C: Hysbysiadau Preifatrwydd	94

Rhestr o dablau a ffigurau

Ffigur 1.1: Awdurdodau Darparu ac Ymgysylltu.....	5
Tabl 1.1: Nifer y plant a fanteisiodd ar y Cynnig ym mhob awdurdod lleol rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020	8
Tabl 1.2: Nifer cyfartalog yr oriau a archebwyd ac a ddefnyddiwyd fesul plentyn bob tymor rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020	8
Tabl 2.1: Trosolwg o'r fethodoleg	11
Tabl 2.2: Cyfraddau ymateb darparwyr y Cynnig yn ôl yr awdurdod lleol yr oeddent wedi cofrestru ag ef	12
Tabl 2.3: Cyfraddau ymateb rhieni yn ôl awdurdod lleol	14
Ffigur 3.1: Rhesymau pam roedd rhieni'n cael y broses ymgeisio yn anodd	20
Ffigur 4.1: Y math o leoliadau gofal plant a ddarparodd y Cynnig	27
Tabl 5.1. Cyfran y rhieni a gymerodd ran yn y Cynnig ym mhob band cyflog gros blynyddol ar yr adeg y gwnaethant gais am y Cynnig rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020	38

Geirfa

Acronym/Allweddair	Diffiniad
AAA	Anghenion Addysgol Arbennig. Mae gan blant anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anawsterau dysgu sy'n galw am wneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer.
C-CAS	Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws ar gyfer plant cyn oed ysgol sy'n blant i weithwyr hanfodol a phlant agored i niwed a oedd ar gael rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020.
CThEM	Awdurdod treth, taliadau a thollau y DU.
Cyfnod Sylfaen	Y cwrwllwm statudol ar gyfer pob plentyn tair i saith oed yng Nghymru.
Cylch Meithrin	Cylch chwarae cyfrwng Cymraeg
Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws	Cynllun cymorth ar gyfer cyflogau gan lywodraeth y DU gyda'r nod o ddiogelu swyddi yn sgil effeithiau economaidd y pandemig COVID-19, ac i roi cymorth i gyflogwyr sy'n wynebu anawsterau i barhau i dalu cyflogau yn hytrach na diswyddo pobl. Cyfeirir ato fel ffyrlo.
Cynnig Gofal Plant	30 awr o addysg gynnar a gofal plant wedi'u hariannu gan y llywodraeth i rieni sy'n gweithio sydd â phlant tair a phedair oed, am hyd at 48 wythnos y flwyddyn.
Cwlwm	Consortiwm o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru. Y sefydliadau sy'n rhan o Cwlwm yw Blynnyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru.
Dechrau'n Deg	Rhaglen Llywodraeth Cymru sy'n darparu cymorth yng nghymunedau mwyaf difreintiedig Cymru i blant (0-3 oed) a'u teuluoedd. Mae rhan o'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn cynnwys 2.5 awr o ofal plant a ariennir i gefnogi datblygiad y plant 2-3 oed sy'n gymwys i gael cymorth.
FPN	Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen - addysg ran-amser (isafswm o 10 awr yr wythnos) sy'n cynnwys addysg gynnar a ariennir i blant 3 a 4 oed yn ystod y tymor ysgol, o'r tymor ar ôl i'r plentyn gael ei ben-blwydd yn 3 oed. Cyfeirir ato weithiau fel hawl addysg gynnar ac addysg gynnar a ariennir. Gall plant sy'n gymwys i ddechrau addysg feithrin ym mis Ionawr/Ebrill ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, gael un neu ddau dymor o addysg FPN - y cyfeirir ati fel FPN1 cyn symud ymlaen i flwyddyn academiaidd lawn o FPN - a elwir yn FPN2 - o'r mis Medi canlynol ymlaen.
Grant Cymorth Ychwanegol	Grant sydd ar gael i alluogi awdurdodau lleol i sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig Gofal Plant yn gynhwysol i blant cymwys y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.
Gwasanaeth gweinyddol cenedlaethol	Mae gwaith ar y gweill i gynllunio a dylunio gwasanaeth gweinyddol mwy canolog - mae hwn yn cael ei ddylunio a'i ddatblygu i wneud y broses o weinyddu ceisiadau gan rieni, gwirio cymhwysra, a threfniadau ar gyfer gwneud taliadau i ddarparwyr yn fwy effeithlon.

1. Cyflwyniad

Mae Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru yn darparu 30 awr o ofal plant ac addysg gynnar i rieni cymwys a chanddynt blant tair a phedair oed sy'n gweithio am 48 wythnos y flwyddyn. Dechreuodd trydedd flwyddyn y Cynnig Gofal Plant ('y Cynnig') ym mis Medi 2019.

Y cefndir

- 1.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu 30 awr o addysg gynnar a gofal plant a ariennir gan y llywodraeth am hyd at 48 wythnos y flwyddyn. Mae'n ofynnol i bob awdurdod lleol yng Nghymru ddarparu o leiaf 10 awr o addysg gynnar yr wythnos i bob plentyn tair a phedair oed yn ystod y tymor, a ddarperir drwy Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN). Gellir darparu hyn mewn lleoliad a gynhelir (ysgol), neu mewn lleoliad nas cynhelir (gofal plant) a ariennir. Yn ystod y 39 wythnos o dymor ysgol, mae'r Cynnig yn cynnwys y ddarpariaeth addysg gynnar hon a ariennir ac a ddarperir drwy FPN ac oriau ychwanegol o ofal plant a ariennir. Mae'r oriau FPN yn amrywio o ardal i ardal, ond yn fwyaf cyffredin mae 12.5 awr o addysg gynnar ar gael, gan adael 17.5 awr o ofal plant a ariennir yn ystod y tymor fel rhan o'r Cynnig.
- 1.2 Mae gofal plant o dan y Cynnig ar gael i blant tair a phedair oed y mae eu rhieni'n ennill isafswm wythnosol sy'n cyfateb i 16 awr ar gyfartaledd ar yr isafswm cyflog cenedlaethol cymwys ond sy'n ennill llai na £100,000 y flwyddyn. Mae pob rhiant (neu warcheidwad, llys-riant a phartneriaid hirdymor sy'n byw yn yr un tŷ) yn gymwys ar gyfer y Cynnig os oes ganddynt blentyn o fewn yr ystod oedran ac os ydynt yn bodloni'r diffiniad o riant sy'n gweithio.
- 1.3 Mae'r Cynnig yn diffinio rhieni sy'n gweithio fel y rhai sy'n gyflogedig, yn hunangyflogedig neu ar gontract dim oriau. Rhaid i'r ddau riant mewn teulu dau riant a'r unig riant mewn teulu un rhiant fod yn gweithio er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig. Fodd bynnag, mae rhai eithriadau i hyn: er enghraifft os yw un rhiant yn gweithio a bod gan y rhiant arall gyfrifoldebau gofal (ac eithrio ar gyfer eu plant eu hunain) neu os yw un rhiant yn gweithio a bod y rhiant arall yn anabl neu'n analluog, mae'r rhiant sy'n gweithio yn gymwys ar gyfer y Cynnig.

- 1.4 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar elfen gofal plant y Cynnig a ariennir gan y llywodraeth. Ar hyn o bryd mae'r elfen FPN yn cael ei darparu drwy fecanwaith ar wahân ac nid yw'n cael ei hystyried yn fanwl yn y gwerthusiad hwn.

Lansio'r Cynnig a'r ddwy flynedd gyntaf

- 1.5 Ym mlwyddyn gyntaf y Cynnig, fe wnaeth saith awdurdod lleol a oedd yn weithredwyr cynnar ddarparu'r Cynnig yn eu ardaloedd peilot cyfan neu mewn rhan ohonynt. Comisiynwyd Ymchwil Arad i gynnal gwerthusiad o flwyddyn gyntaf gweithredu cynnar y Cynnig a chyflwynwyd y canfyddiadau yn yr adroddiad gwerthuso a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2018¹.
- 1.6 Parhaodd y gwaith o gyflwyno'r Cynnig yn raddol tan fis Medi 2018, pan gyflwynwyd model darparu newydd. Roedd hyn yn cynnwys awdurdodau lleol yn gweithio mewn partneriaeth â'i gilydd. Ymgwymerodd rhai awdurdodau lleol â rôl awdurdodau darparu ac roeddent yn gyfrifol am brosesu ceisiadau gan rieni a phrosesu taliadau i ddarparwyr yn eu hawdurdod lleol eu hunain, ac mewn rhai achosion am yr awdurdodau ymgysylltu a oedd yn gysylltiedig â nhw. Roedd awdurdodau ymgysylltu yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni cymwys a darparwyr. Cyflwynir trosolwg o'r trefniadau partneriaeth hyn rhwng y gwahanol awdurdodau lleol yn y ffigur isod. Erbyn mis Ebrill 2019, roedd y Cynnig yn cael ei ddarparu ym mhob awdurdod lleol ledled Cymru.

¹ Glover, A., Harries, S., Lane, J., Lewis, S., [Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 61/2018. [Fel ar 1 Mawrth 2021]

Ffigur 1.1: Awdurdodau Darparu ac Ymgysylltu

Awdurdodau Darparu	Awdurdodau Ymgysylltu
Ynys Môn a Gwynedd*	Conwy
Blaenau Gwent*	Torfaen
Sir y Fflint*	Wrecsam
	Sir Ddinbych
Rhondda Cynon Taf*	Merthyr Tudful
	Pen-y-bont ar Ogwr
Casnewydd	Sir Fynwy
	Bro Morgannwg
Ceredigion	Sir Gaerfyrddin
	Sir Benfro
	Powys
Caerdydd	
Castell-nedd Port Talbot	
Abertawe*	
Caerffili*	

* Rhan o'r peilot gweithredu cynnar ym Mlwyddyn 1, 2018-2019.

- 1.7 Asesodd y gwerthusiad o ail flwyddyn gweithredu cynnar y Cynnig effeithiolrwydd darparu'r Cynnig, yr effaith y mae'r Cynnig yn ei chael ar gyflogadwyedd rhieni, eu llesiant a'u hincwm gwario, ac effaith y Cynnig ar y sector gofal plant ar wahanol fathau o ddarparwyr gofal plant, newidiadau i arferion busnes ac effaith ymyrraeth yn y farchnad gofal plant. Cyhoeddwyd adroddiad gwerthuso'r ail flwyddyn ym mis Rhagfyr 2019.²

Gweithredu'r Cynnig ym mlwyddyn 3

- 1.8 Parhawyd â'r model awdurdodau darparu ac ymgysylltu ar gyfer 2019-2020, gydag awdurdodau lleol yn cydweithio mewn partneriaeth i ddarparu'r Cynnig yn eu hardaloedd. Parhaodd awdurdodau darparu i brosesu ceisiadau gan rieni a thaliadau i ddarparwyr, a pharhaodd awdurdodau ymgysylltu i hyrwyddo'r Cynnig i rieni cymwys yn 2019 ac ar ddechrau 2020.
- 1.9 Mae'r adroddiad cyfredol hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwerthusiad o drydedd flwyddyn gweithredu cynnar y Cynnig. Cyflwynir manylion y dulliau gwerthuso yn adran 2 yr adroddiad hwn.

² Glyn, E., Harries, S., Lane, J., Lewis, S., [Gwerthuso Gweithredu Cynnar Cynnig Gofal Plant Cymru: yr ail flwyddyn](#), Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 57/2019 [Fel ar 1 Mawrth 2021].

COVID-19 a newidiadau i'r ddarpariaeth

- 1.10 Ddiwedd mis Mawrth 2020, esblygodd y cyngor gwyddonol ar y camau a oedd yn ofynnol i ymateb i'r achosion o'r coronafeirws (COVID-19) yn sylweddol. Ar 20 Mawrth cyhoeddodd Llywodraeth Cymru fod angen i rieni gadw eu plant gartref, lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac y dylai ysgolion, lleoliadau gofal plant a lleoliadau chwarae fod ar agor dim ond ar gyfer y plant hynny yr oedd gwir angen iddynt fod yn bresennol er mwyn sicrhau bod gofynion cadw pellter cymdeithasol yn cael eu cynnal a bod y risgiau o drosglwyddo'r haint yn cael eu lleihau.³ Plant gweithwyr hanfodol a phlant mwy agored i niwed oedd y rhain yn benodol.
- 1.11 Ym mis Mawrth 2020, yng ngoleuni'r sefyllfa a oedd yn datblygu mewn perthynas â'r feirws, ymrwymodd Gweinidogion Cymru i barhau i wneud taliadau am ofal plant o dan y Cynnig hyd yn oed pan oedd lleoliad ar gau neu pan nad oedd plentyn yn gallu mynychu. Gwnaed yr ymrwymiad hwnnw am gyfnod o dri mis, gan ddod i ben ar 19 Mehefin, a'i fwriad oedd lleihau'r sioc ariannol i ddarparwyr.
- 1.12 Ym mis Ebrill 2020, cafodd y Cynnig ei atal dros dro i newydd-ddyfodiaid am gyfnod o 3 mis a chytunodd Gweinidogion Cymru rhwng 1 Ebrill a 30 Mehefin:
- Y byddai Cynnig Gofal Plant Cymru yn cau ar gyfer ceisiadau newydd;
 - Y byddai lleoedd plant a oedd yn gymwys ac a oedd eisoes wedi dechrau manteisio ar ofal plant a ariennir o dan y Cynnig yn parhau i gael eu hariannu hyd at 19 Mehefin yn unol â'r cyhoeddiadau blaenorol;⁴
 - Na fyddai plant a oedd yn gymwys, ond nad oeddent eisoes yn manteisio ar ofal plant a ariennir o dan y Cynnig, ar 31 Mawrth yn gallu dechrau derbyn darpariaeth a ariennir;
 - Y byddai'r gyllideb ar gyfer y Cynnig yn cael ei hailddefnyddio i dalu costau gofal plant ar gyfer plant cyn oed ysgol sy'n blant i weithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed - er mwyn darparu ar gyfer y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS).

³ Llywodraeth Cymru, [Cynnig Gofal Plant Cymru – Canllawiau Trosiannol o ganlyniad i COVID-19](#) Canllawiau i Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Tachwedd 2020, WG41684, ISBN Digidol: 978-1-80082-476-8 [Fel ar 1 Mawrth 2021]

⁴ Datganiad i'r wasg 18 Mawrth 2020: [Taliadau Cynnig Gofal Plant Cymru i barhau hyd yn oed os na fydd plant yn bresennol yn sgil ynysu rhag coronafeirws](#)

- 1.13 Ar 9 Mehefin cadarnhaodd y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai Llywodraeth Cymru:
- Yn ymestyn darpariaeth C-CAS tan 31 Awst;
 - Yn parhau i atal y Cynnig dros dro i newydd-ddyfodiaid tan 31 Awst;
 - Yn parhau i wneud taliadau o dan y Cynnig dim ond ar gyfer plant a oedd yn gymwys i fanteisio ar y Cynnig ym mis Mawrth 2020, lle roedd y lleoliad ar agor a'r plentyn yn mynychu'n rheolaidd.
- 1.14 Ar 19 Mehefin cyhoeddodd Prif Weinidog Cymru y gallai gwasanaethau gofal plant ehangu eu gwasanaeth o 22 Mehefin ymlaen, gan gynyddu nifer y plant heblaw plant gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed yr oeddent yn gofalu amdanynt. Felly, gallai plant a oedd wedi manteisio ar y Cynnig cyn mis Mawrth 2020 ddychwelyd i leoliad gofal plant o 22 Mehefin gan ddefnyddio'r lle a gawsant drwy'r Cynnig a ariennir.
- 1.15 Yn unol â chyhoeddiad y Gweinidog Addysg ar 9 Gorffennaf y byddai ysgolion yn dychwelyd i'w capasiti llawn o fis Medi ymlaen, dechreuodd y sector gofal plant symud yn raddol tuag at weithredu'n llawn ac o 1 Medi ailagorodd Llywodraeth Cymru'r Cynnig i newydd-ddyfodiaid. Dechreuodd awdurdodau lleol brosesu ceisiadau ar gyfer newydd-ddyfodiaid o ganol mis Awst, gan flaenoriaethu ceisiadau gan deuluoedd a oedd wedi colli tymor llawn o gyllid y Cynnig yn y lle cyntaf. Daeth C-CAS i ben ar 31 Awst 2020.

Trosolwg o'r niferoedd a fanteisiodd ar y Cynnig

- 1.16 Yn ystod y cyfnod rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020, manteisiodd 16,377 o blant ar y cynnig. Mae Tabl 1.1 isod yn cyflwyno'r niferoedd cyffredinol a fanteisiodd ar y Cynnig, wedi'u dadansoddi yn ôl awdurdod lleol.

Tabl 1.1: Nifer y plant a fanteisiodd ar y Cynnig ym mhob awdurdod lleol rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020

Awdurdod lleol	Nifer y plant sy'n manteisio ar y Cynnig
Abertawe	1,047
Blaenau Gwent	306
Bro Morgannwg	795
Caerdydd	2,082
Caerffili	1,014
Casnewydd	962
Castell-nedd Port Talbot	763
Ceredigion	359
Conwy	650
Gwynedd	806
Merthyr	63
Pen-y-bont ar Ogwr	384
Powys	891
Rhondda Cynon Taf	523
Sir Benfro	429
Sir Ddinbych	696
Sir Fynwy	591
Sir Gaerfyrddin	794
Sir y Fflint	1,240
Torfaen	562
Wrecsam	978
Ynys Môn	442
Cyfanswm	16,377

Ffynhonnell: Data monitro tymhorol

- 1.17 Ar gyfer pob tymor ysgol, casglodd awdurdodau lleol wybodaeth am nifer yr oriau o ofal plant yr oedd pob rhiant wedi'u harchebu a nifer yr oriau a ddefnyddiwyd ar gyfer pob plentyn. Cyflwynir nifer cyfartalog cymedrig yr oriau a archebwyd ac a ddefnyddiwyd fesul plentyn bob tymor, o fis Medi 2019 i fis Mawrth 2020, yn Nhabl 1.2.

Tabl 1.2: Nifer cyfartalog yr oriau a archebwyd ac a ddefnyddiwyd fesul plentyn bob tymor rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020

Tymor	Nifer cyfartalog yr o oriau a archebwyd	Nifer cyfartalog yr oriau a ddefnyddiwyd
Hydref	229	194
Gwanwyn	182	149


Ffynhonnell: Data monitro tymhorol

2. Methodoleg


Crynodeb o'r Fethodoleg

Gwerthusiad â dulliau cymysg:

Gwerthuso prosesau



Gwerthuso effaith



Rhieni a ddefnyddiodd yr elfen gofal plant o'r Cynnig

1,762 o ymatebion i'r arolwg ar-lein

Darparwyr gofal plant sy'n cyflwyno elfen gofal plant o'r Cynnig

498 o ymatebion i'r arolwg ar-lein

22 wedi'u cyfweld



Cyfweliadau Awdurdodau Lleol

21 cyfweliad

Dadansoddiad o ddata monitro Awdurdodau Lleol



Eiconau gan Icons8.com

Nod y Gwerthusiad

- 2.1 Yn 2017, penodwyd Ymchwil Arad i gynnal gwerthusiad o weithrediad [blwyddyn gyntaf y Cynnig](#) ac wedi hynny, estynnwyd y contract i werthuso'r [ail flwyddyn](#) a'r drydedd flwyddyn - sef yr adroddiad hwn. Mae prif nodau'r gwerthusiad wedi aros yr un fath fwy neu lai ers y gwerthusiad cyntaf, sef:
- Gwerthuso pa mor effeithiol y mae'r Cynnig yn cael ei ddarparu i blant a rhieni a chynnig gwersi i lywio darpariaeth yn y dyfodol.
 - Gwerthuso'r effaith y mae'r Cynnig yn ei chael ar gyflogadwyedd, llesiant ac incwm gwario rhieni.
 - Gwerthuso effaith y Cynnig ar y sector gofal plant, gan edrych ar yr effaith ar wahanol fathau o ddarparwyr gofal plant, newidiadau i arferion busnes ac effaith ymyrraeth yn y farchnad gofal plant.
- 2.2 Ar ddechrau gweithredu blwyddyn 3, y bwriad oedd parhau â'r nodau eang hyn gyda ffocws ymchwil ychwanegol ar bynciau allweddol. Fodd bynnag, yn sgil COVID-19, cafodd y Cynnig ei atal dros dro a defnyddiwyd y cyllid ar gyfer Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws. Felly canolbwyntiodd y gwerthusiad hwn ar y cyfnod pan ddarparwyd y Cynnig, o fis Medi 2019 tan fis Mawrth 2020. Mae hefyd yn werthusiad ysgafnach nag mewn blynyddoedd blaenorol, er bod barn rhieni a darparwyr a gafodd eu cynnwys mewn gwerthusiadau blaenorol hefyd wedi'u casglu yn y gwerthusiad eleni. Mae'r dull ysgafnach hwn o werthuso'r Cynnig wedi galluogi'r tîm gwerthuso i adolygu cymorth C-CAS hefyd. Er mwyn cyfyngu ar y pwysau amser ar y rhai y casglwyd eu barn yn ystod y ddau werthusiad hyn, canolbwyntiodd y gwaith maes, h.y. cyfweiliadau â chynrychiolwyr awdurdodau lleol a'r arolwg o ddarparwyr a rhieni, ar C-CAS yn ogystal â'r Cynnig Gofal Plant.

Dulliau

- 2.3 Mabwysiadwyd dull cymysg o gynnal y gwerthusiad, a oedd yn cynnwys sawl elfen ymchwil. Mae Tabl 2.1 yn cyflwyno trosolwg o wahanol elfennau'r ymchwil.

Tabl Error! No text of specified style in document..1: Trosolwg o'r fethodoleg

Cyfranogwr	Dull	Nifer yr ymatebwyr	Pryd
Awdurdodau Lleol	Cyfweliadau dros y Ffôn a thrwy Fideo	21 awdurdod lleol	Tachwedd 2020
Darparwyr Gofal Plant a Gymerodd Ran	Arolwg ar-lein	498	Tachwedd i Ragfyr 2020
Darparwyr Gofal Plant a Gymerodd Ran	Cyfweliadau dros y ffôn	22	Tachwedd i Ionawr 2020
Rhieni a gymerodd ran	Arolwg ar-lein	1,762	Hydref i Dachwedd 2020
Sefydliadau rhanddeiliaid allweddol	Cyfweliadau dros y Ffôn a thrwy Fideo	5 sefydliad	Tachwedd i Ionawr 2020

Cyfweliadau â chynrychiolwyr timau gofal plant awdurdodau lleol

- 2.4 Cynhaliwyd cyfweliadau â chynrychiolwyr tîm y Cynnig mewn awdurdodau lleol ym mis Tachwedd 2020. Pwrpas y cyfweliadau hyn oedd cynnig cyfle i gynrychiolwyr awdurdodau lleol fyfyrir ar y nifer a fanteisiodd ar y Cynnig rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020; y cymorth parhaus, y cyfathrebu a'r canllawiau gan Lywodraeth Cymru; y ffordd y darparwyd y Cynnig, gan gynnwys unrhyw faterion trawsffiniol; capasiti'r sector gofal plant yn y dyfodol yng ngoleuni COVID-19, gan gynnwys a orfodwyd unrhyw leoliadau i gau yn barhaol; a gwersi a ddysgwyd ar gyfer y dyfodol. Nid oedd un awdurdod lleol wedi cael ei gyfweld oherwydd materion yn ymwneud ag amseru. Paratowyd hysbysiadau preifatrwydd ar gyfer y cyfweliadau hyn, ac ar gyfer yr holl waith maes (gweler Atodiad C).

Arolwg o ddarparwyr gofal plant

- 2.5 Ym mis Tachwedd 2020, dosbarthwyd arolwg ar-lein i ddarparwyr gofal plant a oedd wedi cymryd rhan yn y Cynnig neu yn C-CAS - gweler hefyd y Gwerthusiad o C-CAS - y darparwyd eu manylion cyswllt gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru. Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiynau'n ymwneud â barn darparwyr gofal plant am y Cynnig a C-CAS. Nododd darparwyr gofal plant pa Gynllun a gyflwynwyd ganddynt ar ddechrau'r arolwg a chafodd unrhyw gwestiynau'n ymwneud â'r Cynllun na wnaethant ei ddarparu eu hepgor.

- 2.6 Dosbarthwyd yr arolwg drwy e-bost i 2,677 o ddarparwyr gofal plant a oedd wedi darparu cyfeiriad e-bost. Anfonwyd ail e-bost wythnos ar ôl y gwahoddiad cychwynnol, fel nodyn atgoffa er mwyn cael cyfradd ymateb mor uchel â phosibl. Yn ogystal, o blith y darparwyr hynny yr anfonwyd e-bost atynt, anfonwyd neges destun at 1,074 a oedd yn cynnwys dolen i'r arolwg gan fod y darparwyr hyn hefyd wedi darparu rhif ffôn symudol.
- 2.7 Roedd yr arolwg ar agor am bedair wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw daeth cyfanswm o 550 o ymatebion i law; cyfradd ymateb o 22 y cant.⁵ O blith y 550 o'r lleoliadau hyn, darparodd 498 y Cynnig Gofal Plant a darparodd 349 y Cynllun C-CAS. Cyflwynir dadansoddiad o nifer yr ymatebion gan ddarparwyr y Cynnig yn erbyn pob awdurdod lleol y maent wedi'u cofrestru â hwy i ddarparu'r Cynnig yn Nhabl 2.2.

Tabl 2.2: Cyfraddau ymateb darparwyr y Cynnig yn ôl yr awdurdod lleol yr oeddent wedi cofrestru ag ef

Awdurdod lleol	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb fel cyfran o'r ffrâm samplu (%)*
Abertawe	19	19
Blaenau Gwent (hefyd yn darparu ar ran Torfaen)	36	31
Caerdydd	67	20
Caerffili	41	22
Casnewydd (hefyd yn darparu ar ran Bro Morgannwg a Sir Fynwy)	53	12
Castell-nedd Port Talbot	35	23
Ceredigion (hefyd yn darparu ar ran Sir Gaerfyrddin, Powys a Sir Benfro)	83	16
Gwynedd/Ynys Môn (hefyd yn darparu ar ran Conwy)	61	16
Rhondda Cynon Taf (hefyd yn darparu ar ran Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr)	26	14
Sir y Fflint (hefyd yn darparu ar ran Wrecsam a Sir Ddinbych)	106	27
Cyfanswm	527**	

* Mae hyn yn cyfeirio at y gyfradd ymateb i'r arolwg fel canran o'r holl ddarparwyr sydd wedi'u cofrestru ym mhob awdurdod lleol y rhannwyd eu manylion cyswllt gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru.

**Mae rhai darparwyr wedi'u cofrestru gyda mwy nag un awdurdod, ac felly wedi ticio sawl opsiwn.

Ffynhonnell: Arolwg o ddarparwyr gofal plant

⁵ Rhagorodd nifer yr ymatebion ar yr isafswm o 226 sy'n ofynnol er mwyn bod 95% yn hyderus bod ymatebion y darparwyr i'r arolwg yn ddibynadwy rhwng ffin cyfeiliorniad o 5 y cant. Y mwyaf yw'r sampl (dosbarthwyd yr arolwg darparwyr i 2,677 o leoliadau) y mwyaf y gallwn fod yn hyderus bod atebion y darparwyr yn adlewyrchu barn cyfanswm y darparwyr a ddarparodd y Cynnig.

- 2.8 Roedd cwestiynau arolwg y Cynnig yn canolbwyntio ar yr ohebiaeth a gafodd y darparwyr gan awdurdodau lleol; dylanwad y Cynnig ar y ddarpariaeth ac unrhyw newidiadau yn y ddarpariaeth a gynigiwyd; effaith y Cynnig ar gynaliadwyedd darparwyr; a gwersi a ddysgwyd ar gyfer darparu'r Cynnig yn y dyfodol.

Cyfweliadau â darparwyr a gymerodd ran yn y Cynnig

- 2.9 Cysylltwyd â chyfanswm cyffredinol o 134 o ddarparwyr drwy e-bost a'u gwahodd i gymryd rhan mewn cyfweiliad dros y ffôn. Cafwyd ymateb gan 22 o'r rhain ac fe'u cyfwelwyd. Roedd pob un o'r 22 o ddarparwyr gofal plant a gafodd eu cyfweld yn darparu C-CAS a'r Cynnig. O blith y 22 o ddarparwyr a gyfwelwyd, roedd 13 yn warchodwyr plant; roedd 8 yn lleoliadau gofal dydd llawn; ac roedd un yn lleoliad gofal dydd sesiynol.
- 2.10 Dilynodd y cyfweiliadau fformat tebyg i un yr arolwg o ddarparwyr o ran y cwestiynau a rhoddwyd cyfle i drafod safbwyntiau yn fanylach a chasglu barn ar unrhyw wersi a ddysgwyd ar gyfer darparu darpariaeth gofal plant yn y dyfodol.

Arolwg o rieni

- 2.11 Ym mis Hydref 2020, dosbarthwyd arolwg ar-lein i bob rhiant ledled Cymru a oedd wedi cael cymorth drwy'r Cynnig rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020. Canolbwyntiodd cwestiynau'r arolwg ar farn rhieni ar y broses o ymgeisio am y Cynnig; defnydd rhieni o'r gofal plant a sut roedd hyn yn cymharu â'u trefniadau gofal plant blaenorol cyn eu bod yn gymwys i gael y Cynnig; addasrwydd y ddarpariaeth gofal plant a gynigir; ac effaith y Cynnig ar y teulu a'r cyfleoedd gwaith i rieni.
- 2.12 Darparwyd manylion cyswllt y rhieni gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru. Dosbarthwyd yr arolwg drwy e-bost i 12,562 rhieni. Anfonwyd ail e-bost wythnos ar ôl y gwahoddiad cychwynnol, fel nodyn atgoffa er mwyn cael cyfradd ymateb mor uchel â phosibl. Yn ogystal, o blith y rhieni hynny yr anfonwyd e-bost atynt, anfonwyd neges destun at 11,633 a oedd yn cynnwys dolen i'r arolwg gan fod y rhieni hyn hefyd wedi darparu rhif ffôn symudol.

2.13 Roedd yr arolwg ar agor am bedair wythnos ac yn ystod y cyfnod hwnnw daeth cyfanswm o 1,762 o ymatebion i law; cyfradd ymateb o 16 y cant. Cyflwynir manylion nifer yr ymatebion gan rieni sy'n byw ym mhob awdurdod lleol yn Nhabl 2.3.⁶

Tabl 2.3: Cyfraddau ymateb rhieni yn ôl awdurdod lleol

Awdurdod lleol	Nifer yr ymatebion	Cyfradd ymateb fel cyfran o'r ffrâm samplu (%) [*]
Abertawe	51	6
Blaenau Gwent	36	25
Bro Morgannwg	138	11
Caerdydd	130	16
Caerffili	171	19
Casnewydd	165	12
Castell-nedd Port Talbot	61	7
Ceredigion	17	16
Conwy	81	22
Gwynedd	97	22
Merthyr Tudful	4	15
Pen-y-bont ar Ogwr	7	8
Powys	24	10
Rhondda Cynon Taf	19	13
Sir Benfro	24	17
Sir Ddinbych	118	20
Sir Fynwy	104	11
Sir Gaerfyrddin	69	18
Sir y Fflint	192	20
Torfaen	54	20
Wrecsam	129	14
Ynys Môn	70	29
Cyfanswm	1,761^{**}	

^{**}Mae hyn yn cyfeirio at gyfradd ymateb yr arolwg fel canran o'r rhieni ym mhob awdurdod lleol a ddarparodd y Cynnig ac y rhannwyd eu manylion cyswllt gan awdurdodau lleol drwy Lywodraeth Cymru.

^{**} Cwblhaodd 1,762 o ymatebwyr yr arolwg, ni wnaeth 1 ymatebydd nodi ym mha awdurdod lleol yr oedd yn byw.

Ffynhonnell: Arolwg o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig

⁶ Rhagorodd nifer yr ymatebion ar yr isafswm o 373 sy'n ofynnol er mwyn bod 95% yn hyderus bod ymatebion y rhieni i'r arolwg yn ddibynadwy rhwng ffin cyfeiliorniad o 5 y cant. Y mwyaf yw sampl y boblogaeth (dosbarthwyd yr arolwg rhieni i 12,562) y mwyaf hyderus y gallwn fod bod atebion y rhieni yn adlewyrchu barn cyfanswm poblogaeth y rhieni a fanteisiodd ar y Cynnig.

Cyfweliadau â sefydliadau sy'n rhanddeiliaid allweddol


- 2.14 Cynhaliwyd cyfweliadau fideo gyda chynrychiolwyr pedwar o sefydliadau Cwlwm⁷, a gyda Phlant yng Nghymru. Canolbwyntiodd y cyfweliadau hyn ar arsylwadau cyffredinol ar weithredu'r Cynnig, y profiad o atal y Cynnig dros dro a gwersi ehangach ar gyfer y dyfodol.

Dadansoddiad o ddata monitro Tymhorol

- 2.15 Cyflwynodd pob awdurdod lleol ddata monitro tymhorol ar deuluoedd a fanteisiodd ar y Cynnig i Lywodraeth Cymru. Roedd y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddiad o ddata monitro tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn i archwilio nifer y plant a fanteisiodd ar y Cynnig, proffil cyflog teuluoedd a'r oriau gofal plant a archebwyd ac a ddefnyddiwyd o dan y Cynnig. Canolbwyntiodd y dadansoddiad hwn ar ddata monitro tymhorol rhwng mis Medi 2019 a Mawrth 2020.

⁷ [Cwlwm](#) – consortiwm o'r pum prif sefydliad gofal plant yng Nghymru. Y sefydliadau sy'n rhan o Cwlwm yw Blynnyddoedd Cynnar Cymru, Clybiau Plant Cymru, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA Cymru) a PACEY Cymru.

3. Gweithredu'r Cynnig



3.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar brofiadau awdurdodau lleol o ddarparu'r Cynnig a barn a phrofiadau rhanddeiliaid, darparwyr gofal plant a rhieni ar ei weithredu. Dangosodd y canfyddiadau o'r cyfweiliadau hyn:

- Fod y broses o ddarparu'r Cynnig yn mynd rhagddi'n ddidrafferth ar ddechrau gweithredu blwyddyn 3.
- Bod mwyafrif y darparwyr yn fodlon ar y ffordd y mae'r Cynnig wedi cael ei weinyddu, gyda lleoliadau yn nodi ei fod yn *'gynllun da iawn ac yn hawdd i'w ddarparu. Pan fydd problemau'n codi, cânt eu datrys yn gyflym gan yr awdurdod lleol.'*
- Dim ond problemau achlysurol a gafwyd yn ymwneud â'r broses ymgeisio, cymhwysra neu daliadau i ddarparwr yr oedd angen eu gwirio gyda Llywodraeth Cymru, ond serch hynny, roedd yr awdurdodau lleol yn croesawu'r berthynas waith agos a'r ymgynghori rheolaidd rhyngddynt a Llywodraeth Cymru yn arbennig gan fod y gwasanaeth gweinyddol cenedlaethol wrthi'n cael ei ddylunio.
- Yn gyffredinol, nododd yr awdurdodau lleol fod nifer y rhieni a oedd yn cofrestru ar gyfer y Cynnig yn sefydlog ac yn adlewyrchu niferoedd tebyg i'r flwyddyn flaenorol neu niferoedd uwch na'r disgwyl. Tynnodd awdurdodau lleol sylw at nifer bach iawn o broblemau parhaus gyda rhieni, yn benodol dealltwriaeth rhieni o'r rhaniad rhwng gofal plant ac addysg gynnar a dealltwriaeth rhieni o'r ddarpariaeth ar gyfer gwyliau ysgol.
- Nododd awdurdodau lleol fod darparwyr gofal plant bellach yn gyfarwydd â'r systemau gweinyddu a monitro sydd ar waith ac mai ychydig iawn o broblemau oedd a gafwyd. Fodd bynnag, cyfeiriodd rhanddeiliaid a rhai darparwyr gofal plant at rai problemau gyda'r ffaith bod taliadau'n cael eu gwneud ar ffurf ôl-daliadau, ac ar wahanol adegau gan wahanol awdurdodau lleol. Roedd rhanddeiliaid a darparwyr gofal plant hefyd yn gynyddol anfodlon ar y gyfradd o £4.50 yr awr fesul plentyn a delir i ddarparwyr drwy'r Cynnig.
- Yn y cyfweiliadau ag awdurdodau lleol cyfeiriwyd hefyd at y cyfnod ar ôl mis Mawrth 2020. Os oedd plant eisoes yn gymwys ar gyfer y Cynnig ac wedi cofrestru ar ei gyfer cyn 18 Mawrth 2020, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i barhau i dalu am yr oriau gofal plant a archebwyd o dan y Cynnig am gyfnod o

dri mis, hyd yn oed os oedd y lleoliad ar gau neu os nad oedd y plentyn yn mynychu.⁸ Ystyriwyd bod y cyllid hwn yn bwysig iawn o ran cynnal y lleoliadau gofal plant; er bod heriau i rai o ran yr hyn y caniatwyd iddynt ei hawlio. Mae'r Cynnig yn gweithredu yn unol â'r arfer mewn blwyddyn ddarparu newydd (Blwyddyn 4) a dechreuodd llawer o blant newydd gael lleoedd gofal plant a ariennir ym mis Medi 2020. Roedd adroddiadau bod y galw wedi lleihau rhywfaint a bod rhai lleoliadau wedi cau'n barhaol, ond nid oedd hyn yn achos pryder eto i dimau gofal plant yr awdurdod lleol.

Bydd gweddill yr adran hon yn ymhelaethu ar y canfyddiadau hyn.

Ymgysylltiad awdurdodau lleol â'r Cynnig a sut yr oeddent yn ei ddarparu

- 3.2 Gan adeiladu ar y ddwy flynedd flaenorol, nododd holl gynrychiolwyr yr awdurdodau lleol fod y Cynnig yn 'gweithredu'n ddidrafferth' a bod y prosesau sefydledig yn gweithio'n dda ar y cyfan. Fodd bynnag, nododd sawl swyddog awdurdod lleol, oherwydd y cythrwfl a'r gwaith brys a oedd yn ofynnol er mwyn sefydlu'r Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS) yn y gwanwyn, ni allent o reidrydd gofio holl fanylion y gweithgareddau i ddarparu'r Cynnig a ddigwyddodd ym mis Medi 2019.
- 3.3 Fel ym mlwyddyn 2, mae awdurdodau lleol yn chwarae gwahanol rolau yn y broses weithredu. Mae awdurdodau ymgysylltu yn gyfrifol am hyrwyddo'r Cynnig i rieni a darparwyr gofal plant yn eu hardaloedd. Mae awdurdodau cyflawni yn ymgysylltu â rhieni a darparwyr ond maent hefyd yn gyfrifol am brosesu ceisiadau am y Cynnig gan rieni, penderfynu ar eu cymhwysra a'u hysbysu am y canlyniad. Maent hefyd yn gyfrifol am brosesu a gwneud taliadau i ddarparwyr gofal plant ac ymdrin ag ymholiadau ar y Cynnig. Ni chodwyd unrhyw faterion mewn cyfweiliadau am y perthnasoedd gwaith rhwng yr awdurdodau darparu ac ymgysylltu.
- 3.4 Mae gwaith ar y gweill i gynllunio a dylunio dull cenedlaethol ar gyfer gweinyddu'r Cynnig, gyda rôl ymgysylltu barhaus i awdurdodau lleol. Mae'r dull newydd hwn yn cael ei ddylunio a'i ddatblygu er mwyn gwneud y broses o weinyddu ceisiadau,

⁸ Datganiad i'r wasg 18 Mawrth 2020: [Taliadau Cynnig Gofal Plant Cymru i barhau hyd yn oed os na fydd plant yn bresennol yn sgil ynysu rhag coronafeirws](#)

gwirio cymhwysra rhieni a gwneud taliadau yn fwy effeithlon. Ymdriniwyd â hyn yn fyr yn y cyfweiliadau ag awdurdodau lleol ac roedd awdurdodau lleol yn cefnogi hyn ac yn croesawu natur ymgynghorol gwaith Llywodraeth Cymru ar y gwasanaeth. Byddai darparwyr yn arbennig yn croesawu symud tuag at system ac amserlen taliad sengl cyn gynted â phosibl.


Hyrwyddo'r Cynnig

- 3.5 Mae canfyddiadau'r arolwg o rieni yn dangos bod rhieni yn clywed am y Cynnig gan amlaf yn uniongyrchol gan eu darparwr gofal plant presennol gydag ychydig yn llai na hanner y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg (48 y cant) yn nodi hyn. Clywodd bron i draean y rhieni (32 y cant) am y Cynnig ar dafod leferydd. Clywodd bron i un rhan o bump o rieni am y Cynnig gan eu hawdurdod lleol (19 y cant) a thrwy'r rhyngwyd neu'r cyfryngau cymdeithasol (18 y cant), gydag 14 y cant o rieni yn nodi eu bod wedi clywed am y Cynnig gan eu hysgol leol. Nododd un rhan o ddeg o rieni eu bod wedi clywed am y Cynnig gan eu Canolfannau Teulu lleol (pump y cant), eu cyflogwr (tri y cant), mewn papur newydd (dau y cant) neu drwy ymgyrch #trafodgofalplant yn y cyfryngau (un y cant) Nododd pump y cant o rieni 'Arall' fel ateb a oedd yn cynnwys drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (sydd mewn gwirionedd yn rhan o awdurdodau lleol), drwy eu Hymwelydd lechyd a thros y radio.

Y broses ymgeisio

- 3.6 Nododd mwyafrif y rhieni a ymatebodd i'r arolwg ei bod yn hawdd iawn (33 y cant) neu'n weddol hawdd (50 y cant) ymgeisio am y Cynnig. Fodd bynnag, nododd lleiafrif o rieni eu bod wedi ei chael hi'n anodd gwneud cais am y Cynnig (dywedodd wyth y cant ei fod yn weddol anodd neu'n anodd iawn.) Gofynnwyd i'r rhieni hyn pam roedd y broses yn anodd, ac fel y dangosir yn Ffigur 3.1, y ddau reswm mwyaf cyffredin a nodwyd oedd bod y broses yn llafurus (43 y cant) a'u bod yn ei chael hi'n anodd darparu'r dogfennau ategol sy'n ofynnol, fel slipiau cyflog neu dystysgrifau geni eu plentyn (46 y cant).

Ffigur 3.1: Rhesymau pam roedd rhieni'n cael y broses ymgeisio yn anodd



N = 138

Ffynhonnell: Arolwg o rieni: Ymatebwyr a oedd wedi cael y broses ymgeisio yn weddol anodd neu'n anodd iawn

3.7 Rhoddodd nifer fach o rieni (30) fanylion pellach ynghylch pam eu bod wedi cael y broses ymgeisio'n anodd. Roedd y rhesymau hyn yn dod o dan y ddwy thema ganlynol:

- Dryswch ynghylch sut i wneud cais am y Cynnig, gan gynnwys:
 - dryswch ynghylch yr oriau gofal plant ac addysg gynnar;
 - ddim yn deall yn iawn bod angen iddynt wneud cais am y Cynnig drwy'r awdurdod lleol perthnasol
 - rhwystredigaeth ynghylch y ffaith eu bod ond yn gallu cysylltu drwy e-bost neu ar-lein.
- Esboniad pellach o'r anawsterau wrth ddarparu prawf cymhwysra oherwydd:
 - roedd y ffaith eu bod yn cael eu talu'n wythnosol yn golygu bod yn rhaid iddynt uwchlwytho nifer fawr o slipiau cyflog;
 - roeddent yn ei chael hi'n anodd darparu prawf o enillion tra roeddent yn hunangyflogedig, ar absenoldeb mamolaeth neu ar gontractau dim oriau;
 - problemau technegol a oedd yn golygu nad oedd dogfennau cymhwysra yn cael eu huwchlwytho'n iawn.

3.8 Comisiynodd Llywodraeth Cymru astudiaeth ansoddol fanwl ar wahân i ddeall pam mae rhai rhieni/gofalwyr cymwys yn dewis peidio â manteisio ar y Cynnig, neu

elfennau o'r Cynnig. Ymchwiliodd yn fwy manwl i'r anawsterau a gafodd rhai rhieni gyda'r broses ymgeisio, ac ymdriniodd yn ehangach â chredoau, ymddygiad a rhwystrau eraill sy'n effeithio ar resymau rhieni/gofalwyr dros beidio â manteisio ar eu hawl i ofal plant ac addysg gynnar a ariennir. Cyhoeddwyd yr adroddiad ymchwil ym mis Ionawr 2021⁹ ac mae'n darparu argymhellion i gynyddu gwybodaeth a hygyrchedd y Cynnig.

- 3.9 Nododd awdurdodau lleol fod y gwaith o brosesu ceisiadau yn weddol syml a bod llai o sefyllfaoedd wedi codi eleni lle roedd angen iddynt gwestiynu cymhwysra cais gyda Llywodraeth Cymru o gymharu â blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae gallu rhai rhieni hunangyflogedig i ddangos eu bod yn gymwys ar gyfer y Cynnig ac wedi hynny gallu timau gofal plant i wirio a chadarnhau cymhwysra'r rhieni hyn yn her.

'Roedd y ffaith ein bod yn ddau riant hunangyflogedig yn golygu bod gwneud cais yn hunllef. Llwyddodd fy ngŵr i ddarparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, ond cymerodd lawer o amser i'w chasglu. Rwy'n fam hunangyflogedig i ddau (felly dau gyfnod mamolaeth di-dâl a oedd yn golygu na allwn ddarparu prawf o enillion), rwy'n cael incwm drwy rentu eiddo, ac mae gen i hefyd swydd lanhau ar gcontract dim oriau y gwnes i ei chymryd ar ôl imi sylweddoli ein bod ni'n gymwys i gael gofal plant. Yn ystod y misoedd a gymerodd i'r Cynnig gael ei dderbyn, roeddwn yn talu mwy mewn gofal plant ychwanegol nag yr oeddwn i'n ei ennill.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

- 3.10 Ymhlith yr enghreifftiau a nodwyd gan gynrychiolwyr awdurdodau lleol roedd adolygu cymhwysra rhieni sy'n cyflwyno cyfrifon busnes sy'n ymwneud â'r incwm y maent yn ei gael o sawl menter fach y maent yn berchen arnynt, neu'n rhannol berchen arnynt, yn ogystal ag ymgeiswyr hunangyflogedig sy'n cyflwyno cyfrifon cymhleth fel tystiolaeth o gymhwysra. Fodd bynnag, nododd llawer o gynrychiolwyr awdurdodau lleol a gyfwelwyd eu bod wedi mynychu gweithdy Cyllid a Thollau EM yr oedd Llywodraeth Cymru wedi'i drefnu, ac roedd hyn wedi eu helpu gryn dipyn i ddeall a phrosesu ceisiadau gan rieni hunangyflogedig. Nododd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol y byddent yn croesawu rhagor o gyfleoedd i fynychu gweithdai o'r natur hon.

⁹ Hughes, B a Jones, K. (2021) [Credoau rhieni, eu hymddygiadau a'r rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu: gofal plant ac addysg gynnar](#)

Cyfathrebu'r Cynnig: Deall y gymysgedd o ofal plant a darpariaeth FPN

3.11 Fel yn adroddiadau gwerthuso'r blynyddoedd blaenorol, nododd yr awdurdodau lleol a darparwyr nad oedd llawer o rieni'n deall yn llawn bod y Cynnig yn cynnwys oriau gofal plant ac oriau FPN. Yn y cyfweiliadau ag awdurdodau lleol a rhanddeiliaid ar gyfer y gwerthusiad hwn o flwyddyn 3, daeth hyn i'r amlwg fel y broblem fwyaf cyffredin sydd eto i'w datrys wrth roi'r Cynnig ar waith.

3.12 Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgyrch yn y cyfryngau ar y Cynnig Gofal Plant¹⁰ ac mae'r awdurdodau lleol a'r darparwyr eu hunain hefyd yn hyrwyddo'r Cynnig i rieni. Disgrifir y Cynnig mewn deunyddiau fel un sy'n cynnwys gofal plant ac addysg gynnar ond serch hynny mae'n amlwg nad yw pob rhiant wedi deall dwy ran y Cynnig.

'Roedd yr wybodaeth am y broses ymgeisio a'r gwahaniaeth rhwng y Cynnig Gofal Plant a'r hawl i addysg gynnar yn ddryslyd ac ni chafodd ei egluro'n dda. Fe wnaeth rheolwr y feithrinfa ddydd breifat yr oeddem yn ei defnyddio esbonio hyn imi.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

3.13 Esboniodd rhai awdurdodau lleol nad oedd rhai rhieni yn deall i ddechrau bod yn rhaid gwneud dau gais ar wahân am ofal plant ac addysg gynnar. Esboniodd rhai darparwyr fod darpar gwsmeriaid newydd wedi cysylltu â nhw gan dybio y gallent gael 30 awr yn y feithrinfa neu gyda'r gwarchodwr plant.

'Mae'n gynnig 30 awr ond nid gyda ni ac nid yw rhieni'n deall nad yw'r cyfan yn cael ei ddarparu yn y feithrinfa. Rwyf wedi cael pobl yn dod ataf ac yn gofyn am y 30 awr lawn a dydyn nhw ddim yn deall pam na allan nhw gael hynny'.
(Gwarchodwr Plant: Ymatebydd i gyfweiliad).

Darparu'r Cynnig yn ystod gwyliau ysgol

3.14 Mae'r Cynnig yn cynnwys hyd at 30 awr o ofal plant a ariennir yn ystod naw o'r tair wythnos ar ddeg o amser nad yw'n amser yn ystod y tymor. Amlinellodd y gwerthusiad o flwyddyn 2 y Cynnig fod dryswch ymhlith llawer o rieni a rhai darparwyr ynghylch pa ddarpariaeth yr oedd ganddynt hawl iddi yn ystod gwyliau ysgol a bod achosion lle roedd rhieni a darparwyr wedi eu synnu o sylweddoli bod

¹⁰ Mae'r ymgyrch i'w gweld ar draws sianeli'r cyfryngau. Gweler gwefan Llywodraeth Cymru: [Cynnig Gofal Plant Cymru: Help gyda chostau gofal plant i rieni sy'n gweithio sydd â phlant 3 i 4 oed](#)

yn rhaid iddynt dalu am ddarpariaeth gofal plant ar gyfer rhai wythnosau o wyliau ysgol. Canfu gwerthusiad blwyddyn 2 fod rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol wedi nodi eu bod wedi cynyddu eu hymdrechion i gynnig mwy o wybodaeth a gwybodaeth gliriach i rieni a darparwyr ynghylch eu hawliau i gyllid y Cynnig yn ystod gwyliau ysgol.

- 3.15 Oherwydd COVID-19, a'r ymyrraeth o ganlyniad i'r Cynnig, nid oedd plant cymwys yn gallu manteisio ar ofal plant a ariennir gan y Cynnig yn ystod gwyliau ysgol o fis Mawrth 2020 ymlaen. Felly, ni fu'n bosibl cymharu'r sefyllfa sy'n ymwneud â darparu a manteisio ar y Cynnig yn ystod 2020 o'i gymharu â 2019 ac felly a yw ymdrechion awdurdodau lleol i godi ymwybyddiaeth rhieni a darparwyr o drefniadau cyllido'r Cynnig yn ystod gwyliau ysgol wedi bod yn llwyddiannus. Fodd bynnag, roedd rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol o'r farn nad oedd rhai rhieni yn ymwybodol o'r trefniadau ar gyfer gwyliau ysgol o hyd. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol y gallai hyn fod oherwydd nad yw darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol - a gwyliau hir yr haf yn benodol - yn flaenoriaeth i lawer o rieni pan fyddant yn gwneud cais am y Cynnig i ddechrau.

Heriau trawsffiniol

- 3.16 Un agwedd sy'n parhau i greu heriau i'r awdurdodau darparu a darparwyr yw gweinyddu'r Cynnig ar draws un neu fwy o ffiniau awdurdodau lleol, yn ogystal ag, mewn rhai achosion, dros y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae'r heriau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gwahanol ddyddiadau dechrau Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen¹¹ (FPN1 a FPN2) ac addysg ar draws awdurdodau lleol wedi'u cofnodi yng gwerthusiadau blynyddoedd 1 a 2 y Cynnig. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau darparu fod yr heriau hyn yn parhau, er bod y systemau gweinyddol ac ymgeisio y maent wedi'u sefydlu bellach yn eu galluogi i ddelio â'r rhan fwyaf o'r rhain erbyn hyn - ar yr amod nad yw polisïau addysg a darpariaeth FPN yn newid o fewn awdurdodau lleol unigol.

¹¹ Cyfeirir at ddau dymor cyntaf Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN) fel FPN1 a'r tri thymor canlynol fel FPN2. Bydd rhai plant yn cael pum tymor, rhai yn cael pedwar tymor ac eraill yn cael tri thymor, yn dibynnu ar pryd y cawsant eu geni. Gall faint o ddarpariaeth FPN y gall plentyn ei chael amrywio o ardal i ardal hefyd.

- 3.17 Fodd bynnag, nododd rhai o'r darparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg ac a gyfwelwyd fod y gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â derbyn plant o wahanol awdurdodau lleol yn eu lleoliad yn parhau i fod yn her iddynt.

'Rhaid i gynlluniau gofal plant weithredu drwy un wefan mewn gwirionedd neu ar sail lleoliad y darparwr nid lleoliad y rhiant. Mae byw ar y ffin rhwng 3 awdurdod yn aml yn golygu bod yn rhaid imi gofrestru gyda 3 chynllun gwahanol a deall eu prosesau.' (Ymaebydd i gyfweliad â darparwyr y Cynnig).

Nododd un cynrychiolydd awdurdod lleol ei fod yn dibynnu ar ddarparwyr a / neu rieni plant a oedd yn manteisio ar y Cynnig y tu allan i Gymru yn dweud wrthynt sawl awr o addysg gynnar (cyfwerth ag FPN) yr oedd eu plentyn yn ei chael bob wythnos. Mae'r oriau o ofal plant a ariennir yr oedd y plant hyn yn gymwys i'w cael o fewn y Cynnig a'r oriau a gawsant yn seiliedig ar y wybodaeth a gyfathrebwyd ar lafar yn unig gan nad oes gan yr awdurdodau darparu yng Nghymru fynediad at unrhyw wybodaeth ffurfiol i gadarnhau hyn. O ganlyniad, gallai rhai plant sy'n manteisio ar y Cynnig yn Lloegr fod yn derbyn mwy, neu lai, o ofal plant wedi'i ariannu nag y mae ganddynt hawl iddo. Fodd bynnag, dim ond i nifer cymharol fach o blant a gefnogir gan y Cynnig y mae hyn yn berthnasol.

Grant Cymorth Ychwanegol

- 3.18 Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn darparu cyllid ychwanegol drwy'r Grant Cymorth Ychwanegol fel y gall awdurdodau lleol sicrhau bod elfen gofal plant y Cynnig yn gynhwysol i blant cymwys y mae angen cymorth ychwanegol arnynt er mwyn manteisio ar y Cynnig. Mae ar gael i awdurdodau lleol ei ddefnyddio i ddileu'r rhwystrau posibl sy'n atal rhieni â phlant y maent yn credu bod ganddynt anghenion cymorth ychwanegol, neu y nodwyd bod ganddynt anghenion o'r fath, rhag manteisio ar y Cynnig.
- 3.19 Mae'r canfyddiadau yn adroddiadau gwerthuso blwyddyn 1 a blwyddyn 2 y Cynnig Gofal Plant yn dangos y bu tanwariant o'r grant hwn ar draws y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol. Yn sgil atal y Cynnig dros dro rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020, cafwyd tanwariant pellach o'r grant yn ystod y cyfnod hwn. Nododd un awdurdod lleol, fodd bynnag, ei fod wedi defnyddio'r tanwariant yr oeddent yn gwybod y byddent yn ei gael o'u dyraniad grant ar gyfer 2019/20 i ariannu swydd cydlynnydd ADY a allai ymweld â lleoliadau i adolygu anghenion plant a ariennir gan


y Cynnig. Roedd hyn er mwyn galluogi'r cydlynnydd i gefnogi darparwyr gofal plant i nodi plant yn eu lleoliadau a allai fod ag ADY a'u cynorthwyo i gael gafael ar gyllid a chymorth pellach i'r plant hyn.

Ar ôl mis Mawrth 2020: Newidiadau a heriau i'r Cynnig

- 3.20 Gyda'r Cynnig wedi'i atal dros dro i newydd-ddyfodiaid o fis Mawrth 2020, talodd Llywodraeth Cymru i ddarparwyr am yr oriau a ariennir a oedd eisoes wedi'u harchebu gan blant cymwys, os oedd lleoliad ar gau neu pan nad oedd plentyn yn gallu mynychu, am gyfnod o dri mis er mwyn lleihau'r sioc ariannol i ddarparwyr.
- 3.21 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau i awdurdodau lleol gan nodi y byddai taliadau'r Cynnig yn parhau am dri mis pe bai'r plant eisoes yn y system. Roedd darparwyr o'r farn bod parhau i dderbyn y cyllid hwn yn gwneud gwahaniaeth mawr iddynt, mewn cyfnod lle roedd costau'n parhau i gronni tra roeddent yn cael rhybudd i gau yn dilyn cyhoeddi'r cyfyngiadau symud.
- 3.22 Tua'r un pryd, cyflwynodd Llywodraeth y DU Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (y Cynllun Cadw Swyddi), a roddodd gyllid i gyflogwyr dalu hyd at 80 y cant o gostau cyflogau gweithwyr nad oeddent yn gallu gweithio mwyach oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Nododd nifer o ddarparwyr a gyfwelwyd nad oeddent yn ymwybodol nad oedd modd hawlio cyllid y Cynnig a chyllid y Cynllun Cadw Swyddi ar gyfer yr un costau. Arweiniodd hyn at ddryswch ymhlith darparwyr, ac mewn rhai achosion cawsant eu gordalu a bu'n rhaid iddynt ad-dalu rhywfaint o'r cyllid a gawsant. Yn sgil cyflwyno C-CAS, achoswyd rhagor o ddryswch ynghylch cyllid i rai darparwyr, ac eglurir hyn ymhellach yn y Gwerthusiad o'r Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws.¹²

¹² Gweler adrannau 3.1 a 3.41 o'r [Gwerthusiad o'r Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws \(C-CAS\)](#).

4. Gwneud gwahaniaeth i Ddarparwyr




- 4.1 Adolygodd gwerthusiadau'r flwyddyn gyntaf a'r ail sut yr oedd gofal plant a ariannwyd gan y Cynnig yn effeithio ar berfformiad busnes darparwyr nawr ac yn y dyfodol. Mae'r adran hon yn ailedrych ar nifer o'r pwyntiau hyn yn ogystal ag ar faterion ychwanegol yn ymwneud â sut y bu i'r Cynnig gefnogi C-CAS rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020 ac unrhyw heriau a gododd wrth weithredu'r Cynnig am y drydedd flwyddyn.

Proffil y darparwyr a ddarparodd y Cynnig

- 4.2 O'r 498 o leoliadau gofal plant a ymatebodd i'r arolwg ac a ddarparodd y Cynnig, roedd dros eu hanner (52 y cant) yn warchodwyr plant, roedd bron i draean (32 y cant) yn lleoliadau gofal dydd llawn, roedd 14 y cant yn lleoliadau gofal dydd sesiynol ac roedd chwech y cant yn ddarpariaeth gofal y tu allan i'r ysgol.¹³

Ffigur 4.1: Y math o leoliadau gofal plant a ddarparodd y Cynnig



N=498

Ffynhonnell: Arolwg o ddarparwyr: Darparwyr a nododd eu math o leoliad cofrestredig

- 4.3 O blith y lleoliadau a ddarparodd y Cynnig ac a ymatebodd i'r arolwg, roedd dros hanner y lleoliadau (53 y cant) yn rhai cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog, roedd dros chwarter (27 y cant) yn lleoliadau cyfrwng Saesneg, roedd

¹³ Roedd modd i ddarparwyr ddewis mwy nag un opsiwn yn yr arolwg.

13 y cant yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg, a dywedodd chwech y cant eu bod yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg.

Newidiadau yn yr oriau gofal plant a ddefnyddiwyd gan rieni

- 4.4 Manteisiodd llawer o rieni ar y Cynnig mewn lleoliad yr oeddent eisoes yn ei ddefnyddio. Fodd bynnag, nododd darparwyr fod ychydig yn llai na 30 y cant o'r plant a gefnogwyd gan y Cynnig yn newydd i'w lleoliad (roedd y Darparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg yn gofalu am 3500 o blant rhyngddynt o dan y Cynnig, ac roedd 1019 o'r rheini'n 'gwsmeriaid newydd'). Nododd bron i hanner y darparwyr a oedd wedi darparu'r Cynnig (46 y cant) fod rhieni'n defnyddio'r un oriau o ofal plant gyda chymorth y Cynnig ag yr oeddent wedi'i wneud cyn i'r Cynnig fod ar gael iddynt. Nododd dros draean (36 y cant) y darparwyr fod rhieni'n tueddu i gynyddu eu horiau, o gymharu â chyn iddynt fanteisio ar y Cynnig. Nododd 13 y cant o ddarparwyr eu bod wedi gweld cymysgedd o newidiadau, gyda rhai rhieni'n cynyddu a rhai rhieni'n lleihau eu horiau, yn dibynnu ar eu gofynion teuluol. Roedd gwahaniaethau ym mhrofiadau darparwyr - roedd meithrinfeydd dydd yn fwy tebygol o adrodd bod rhieni wedi cynyddu eu horiau (ac roedd dros eu hanner wedi gweld rhieni'n cynyddu eu horiau) ond dim ond un rhan o bump o warchodwyr plant a ddywedodd fod rhieni wedi cynyddu eu horiau.
- 4.5 Gofynnwyd i ddarparwyr am eu barn ar y prif resymau pam yr oedd rhieni'n cynyddu eu horiau. Y rhesymau a roddwyd oedd: rhieni'n cynyddu eu horiau gwaith er mwyn hawlio'r Cynnig felly roedd angen mwy o ofal plant arnynt o ganlyniad; cynyddu oriau gwaith er mwyn ennill mwy o arian i'r teulu bob mis; cynyddodd rhai rhieni nifer yr oriau gofal plant a archebwyd yn ystod wythnosau gwyliau ysgol; neu rieni a arferai ddefnyddio'r lleoliad unwaith yr wythnos yn cynyddu eu diwrnodau ar ôl cael cyllid i helpu gyda chostau gofal plant.
- 4.6 Gofynnwyd i ddarparwyr hefyd a oedd rhieni a gefnogwyd gan y Cynnig yn cael mwy o oriau gofal plant na'r uchafswm o 20 awr a ariennir drwy'r Cynnig yn ystod y tymor a 30 awr yn ystod gwyliau'r ysgol¹⁴. Nododd bron i ddwy ran o dair o'r darparwyr (65 y cant) fod rhieni wedi newid eu horiau. O blith y rhain, dywedodd eu hanner fod pob un neu'r mwyafrif o rieni wedi cynyddu eu horiau, a nododd eu

¹⁴ Drwy gydol gwyliau'r ysgol, gofal plant yn unig yw'r 30 awr o ddarpariaeth Cynnig Gofal Plant a ariennir bob wythnos ac nid yw wedi'i rannu rhwng gofal plant a darpariaeth FPN.

hanner fod rhai o'u rhieni wedi manteisio ar fwy o oriau na'r nifer a ariennir gan y Cynnig.

Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen

- 4.7 Mae'r Cynnig yn cynnwys cyfuniad o Ddarpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen (FPN), a oedd ar gael cyn y Cynnig, ac sydd ar gael i bob plentyn tair a phedair oed o'r tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, a gofal plant ychwanegol a ariennir. Mae ychydig dros chwarter y darparwyr gofal plant a gymerodd ran yn yr arolwg yn cael eu hariannu gan eu hawdurdod lleol i ddarparu FPN (26 y cant o blith y 466 o leoliadau a roddodd ateb). O blith y rhain, dim ond tri darparwr unigol a nododd eu bod wedi rhoi'r gorau i ddarparu FPN yn ddiweddar neu'n bwriadu gwneud hynny, gyda dau yn nodi'r gyfradd ariannu isel a dalwyd am ddarparu FPN fel y rheswm dros hyn. Roedd rhanddeiliaid a rhai cynrychiolwyr awdurdodau lleol wedi mynegi pryderon o'r blaen bod y sector yn cael trafferthion oherwydd y gyfradd isel a delir am ddarpariaeth FPN mewn rhai ardaloedd. Mae'n ymddangos felly bod rhai o'r pryderon hyn yn parhau. Yn y cyfweiliadau ac yn yr arolwg, ymhelaethodd rhai darparwyr ar eu barn ynghylch yr FPN, gyda nifer fach yn cwyno am y gyfradd isel, fel yr eglurwyd gan un lleoliad a oedd wedi cynnig FPN o'r blaen:

'roedd yna ormod o bapur, dim digon o gefnogaeth a gormod o oriau yn gweithio gyda'r ALI. Ac nid yw'n ariannol hyfyw.' (Ymatebydd i arolwg darparwyr y Cynnig).

- 4.8 Mynegodd rhai darparwyr, fodd bynnag, eu dymuniad i ddechrau darparu FPN. Roeddent yn credu bod llawer o rieni'n hoffi'r ffaith y gall eu plentyn aros mewn un lleoliad ar gyfer darpariaeth feithrin ac oriau'r Cynnig, ac y byddai manteision i'r lleoliad yn sgil llai o angen am drafnidiaeth ar gyfer gofal cofleidiol, a mwy o incwm. Nododd nifer o leoliadau nad ydynt yn darparu FPN ar hyn o bryd y byddent yn hoffi gwneud hynny, ond esboniwyd mai polisi eu hawdurdod lleol oedd mai dim ond mewn ysgolion yr oedd modd darparu FPN.

'Nid yw adran Addysg yr ALI yn caniatáu unrhyw geisiadau pellach i ddarparu'r Cyfnod Sylfaen, er ein bod wedi cael nifer o rieni yn gofyn am hyn dros y blynnyddoedd. Yn bersonol, nid wyf yn teimlo mai dyma sydd orau i blant na'u rhieni gan fod yn rhaid iddyn nhw symud lleoliad er mwyn manteisio ar gyllid y cyfnod sylfaen mewn lleoliad arall, ac mae hyn yn arbennig o heriol gyda phlant ag anghenion penodol.' (Ymatebydd i arolwg darparwyr y Cynnig).

- 4.9 Nododd dros ddwy ran o dair (67 y cant) o'r darparwyr a gymerodd ran yn yr arolwg fod y Cynnig wedi cael effaith gadarnhaol ar eu proffidioldeb, gyda 70 y cant yn nodi bod y Cynnig wedi cael effaith gadarnhaol ar gynaliadwyedd eu busnes. Mae hyn yn cyfateb yn fras â blynyddoedd blaenorol, lle roedd yn 65 y cant a 62 y cant yng ngwerthusiad blwyddyn 2, a 72 y cant a 76 y cant yng ngwerthusiad blwyddyn 1.
- 4.10 Nododd dros chwarter yr ymatebwyr (25 a 26 y cant) nad oedd y Cynnig wedi cael unrhyw effaith ar eu proffidioldeb a'u cynaliadwyedd yn y drefn honno a nododd lleiafrif bach, 5 y cant o leoliadau, fod y Cynnig wedi cael effaith negyddol ar eu proffidioldeb a'u cynaliadwyedd. Y prif resymau a roddwyd gan ddarparwyr oedd bod y gyfradd £4.50 yn is na'u cyfradd fasnachol arferol (gweler hefyd 4.14) ond esboniodd rhai hefyd fod y Cynnig wedi newid defnydd rhai rhieni o ofal plant:
- 'Defnyddir yr oriau Cynnig Gofal Plant yn [ein lleoliad] ac yn yr ysgol felly nid oes gan rieni unrhyw oriau ar ôl i'w defnyddio yn erbyn gofal plant Ar Ôl Ysgol gyda ni' (Ymatebydd i arolwg darparwyr y Cynnig)
- 4.11 Nododd y mwyafrif o ddarparwyr a gafodd eu cyfweld ac a gymerodd ran yn yr arolwg, fod y Cynnig wedi darparu incwm rheolaidd cyson i'w lleoliad. Nododd y darparwyr fod derbyn incwm cyson yn fisol, heb orfod mynd ar ôl taliadau hwyr yn gwneud y broses o reoli llif arian yn haws i leoliadau, yn enwedig i'r lleoliadau hynny mewn ardaloedd a oedd yn cael eu talu ymlaen llaw. Aeth un darparwr ymlaen i egluro, oherwydd bod y Cynnig yn talu am oriau a archebwyd os na allai plant fod yn bresennol am unrhyw reswm, neu pe bai rhieni'n penderfynu peidio ag anfon eu plentyn i'r lleoliad er mwyn manteisio ar y ddarpariaeth a archebwyd ganddynt, nid oedd yn rhaid iddynt boeni am geisio llenwi lleoedd a oedd wedi'u harchebu er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o incwm i dalu costau staff a gorbenion eraill.
- 4.12 Nododd rhai darparwyr, er bod y Cynnig wedi bod yn broffidiol i'w busnes, roedd y rhan fwyaf o'r plant a oedd yn defnyddio'r Cynnig eisoes yn mynychu eu lleoliad.
- 'Roedd yn fonws ychwanegol i rieni ein bod yn cynnig y Cynnig Gofal Plant. Roeddwn yn teimlo bod yn rhaid i mi ei gynnig, neu efallai y byddwn yn colli plant, oherwydd efallai y bydden nhw'n mynd i rywle arall. Mae'n anodd dod o hyd i deuluoedd da, felly rydych chi am eu cadw, hyd yn oed os yw hynny'n golygu mwy o waith papur.' (Ymatebydd i arolwg darparwyr y Cynnig)

Taliadau ychwanegol

- 4.13 Nododd dros un o bob pum darparwr (22 y cant) a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi cyflwyno taliadau ychwanegol yn eu lleoliadau ers cyflwyno'r Cynnig. Nododd 14 y cant o'r darparwyr fod y taliadau ychwanegol a gyflwynwyd ganddynt yn deillio'n uniongyrchol o'r Cynnig. Roedd canfyddiadau gwerthusiadau'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn yn debyg gyda 15 y cant o ddarparwyr yn nodi, yn y ddwy flynedd, eu bod wedi cyflwyno taliadau ychwanegol.
- 4.14 O blith y rhai a oedd wedi cyflwyno taliadau ychwanegol, nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (79 y cant) fod y rhain ar gyfer prydau bwyd a byrbrydau. Roedd dros draean (34 y cant) wedi gwneud hyn er mwyn talu costau cludiant, a dros draean (39 y cant) er mwyn talu nwyddau traul eraill, costau gweinyddol ac i gyd-fynd â ffioedd darparwyr eraill yn yr ardal.

Hyfywedd masnachol y Cynnig

- 4.15 Mae darparwyr gofal plant yn cael £4.50 yr awr fesul plentyn gan Lywodraeth Cymru i ddarparu gofal plant o dan y Cynnig. Gall darparwyr hefyd godi tâl ar rieni am fwyd, trafnidiaeth a gweithgareddau eraill ond ni allant godi mwy ar rieni am ddarparu gofal plant, hyd yn oed os yw eu cyfradd arferol yn uwch. Gofynnwyd i ddarparwyr gofal plant fel rhan o'r arolwg a oeddent wedi newid eu ffioedd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Nododd dros draean y darparwyr (36 y cant) eu bod wedi newid eu ffioedd ac roedd y rhesymau am hynny yn cynnwys newidiadau i gyflogau staff, cynnydd yn yr isafswm cyflog cenedlaethol a'r cyflog byw cenedlaethol a chynnydd rheolaidd mewn ffioedd i adlewyrchu newidiadau yn y farchnad leol.
- 4.16 Yng ngwerthusiad blwyddyn 2 adroddwyd bod lleoliadau yn disgwyl y byddai'r gyfradd yn '*cynyddu cyn bo hir*,' er mwyn i'r Cynnig fod yn fasnachol hyfyw iddynt.¹⁵ Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal adolygiad o'r gyfradd ar gyfer y Cynnig. Disgwylir i adolygiad gael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2021. Yn y cyfweiliadau, soniodd nifer o ddarparwr, oherwydd cynnydd yn y ffioedd dros y tair blynedd diwethaf, fod y ffi fesul awr o £4.50 bellach gryn dipyn yn is na'u ffi arferol yr awr. Dywedodd darparwyr y dylid adolygu ffi y Cynnig yn unol â'r cynnydd mewn ffioedd eraill fel y cyflog byw cenedlaethol. Nododd rhai lleoliadau llai, a oedd â dim ond un plentyn yn gymwys ar gyfer y Cynnig, bod hynny'n golygu llawer o waith

¹⁵ [Gwerthusiad o'r Cynnig Gofal Plant i Gymru: blwyddyn 2](#), tudalen 27

papur iddynt er mwyn cael ffi debyg i'w cyfradd gyfredol. Nododd ambell ddarparwr mai eu rheswm dros barhau i ddarparu'r Cynnig oedd pryder y byddai rhieni'n mynd i rywle arall, at ddarparwr arall a fyddai'n darparu'r Cynnig.

'Dim ond 1 plentyn sydd gen i ar y Cynnig Gofal Plant - nid yw mynd drwy'r holl waith papur ar gyfer un plentyn am 4.50 yr awr yn werth chweil. Ar ôl fy nhreuliau ac ati, does gen i fawr ddim ar ôl. Rwy'n hapus bod y Cynnig yn rhoi'r hawl imi gael mwy o grantiau (y gwnes i gais amdanynt), ond fyddwn i ddim yn dweud fy mod i'n elwa ohono'n uniongyrchol.' (Ymatebydd i gyfweiliad â darparwyr y Cynnig).

Rydym yn cael £4.50 ond fel rheol rydym yn codi £6.00 yr awr ar blant 3 oed. Mae'n wych cael mwy o blant ac rydym yn ddiolchgar am hynny ond mae angen codi'r gyfradd fesul awr cyn gynted â phosibl.' (Ymatebydd i arolwg darparwyr y Cynnig).

- 4.17 Nododd rhai darparwyr fod y gyfradd o £4.50 yr awr yn ddigonol i ddechrau, ac er ei bod yn *'darparu ffynhonnell incwm sefydlog, nid yw'r gyfradd wedi newid ers lansio'r Cynnig, a chn fod costau eraill wedi cynyddu, onid yw'n bryd adolygu'r gyfradd?'*

Nododd un darparwr a gyfwelwyd ei fod yn fodlon ar y gyfradd gan ei fod yn credu ei bod yn uwch na'r gyfradd a delir gan y Cynnig Gofal Plant yn Lloegr (lle mae'r cyfraddau'n amrywio).

- 4.18 Nododd darparwr arall a gyfwelwyd ei fod yntau hefyd yn fodlon ar y gyfradd ond dim ond oherwydd y gallent hefyd godi £7.50 y dydd yn ychwanegol ar rieni sy'n manteisio ar y Cynnig. Esboniodd y darparwr nad oeddent yn codi tâl am fwyd fel eitem ychwanegol ar rieni sy'n talu ffioedd oherwydd ei fod wedi'i gynnwys yn y gyfradd ddyddiol unffurf a godir ganddo; aeth ymlaen i egluro ei fod yn rhan o gynllun dyfarnu ansawdd bwyd na fyddai'n gallu fforddio gwneud hynny heb godi £7.50 ychwanegol y dydd ar rieni sy'n manteisio ar y Cynnig. Er bod y darparwr dan sylw yn nodi ei fod yn cynnwys tâl am fwyd yn y gyfradd a godir ar rieni sy'n talu ffioedd, nid yw hyn wedi'i restru fel cost ar wahân ar anfonebau. Mae'n ymddangos bod hyn yn mynd yn groes i'r canllawiau ar daliadau ychwanegol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ¹⁶. Mae enghreifftiau fel y rhain wedi'u nodi yn adroddiadau

¹⁶ Llywodraeth Cymru (2019) [Cynnig gofal plant: canllawiau i awdurdodau lleol](#) paragraffau 82-84.

gwerthuso blaenorol y Cynnig Gofal Plant, ac mae'n ymddangos o'r enghraifft hon, er gwaethaf y canllawiau clir a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, fod rhai darparwyr yn parhau i gamddehongli'r canllawiau hyn.

- 4.19 Cyfeiriodd rhai awdurdodau lleol a nifer bach o ddarparwyr at y cyfraddau is a delir am addysg gynnar FPN yn eu hardal o gymharu â'r gyfradd gofal plant. Cyfeiriwyd at y cynllun peilot diweddar yn Sir y Fflint lle y codwyd y cyfraddau FPN i gyfateb i gyfraddau'r Cynnig ac roedd timau a darparwyr gofal plant awdurdodau lleol yn awyddus i weld cyfraddau FPN yn cynyddu fel mater o flaenoriaeth yn arbennig er mwyn helpu i gyfrannu at ddiogelwch ariannol lleoliadau ar ôl COVID-19 ac i sicrhau nad yw lleoliadau'n rhoi'r gorau i ddarparu FPN. Ers y cyfweiliadau hyn ag awdurdodau lleol, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn sicrhau bod arian ychwanegol ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i gynyddu'r cyllid i gyfateb â'r gyfradd gyllido gyfredol o £4.50 yr awr ar gyfer gofal plant o fewn y Cynnig.¹⁷

Gweinyddiaeth a lefel y galw am y Cynnig ar ôl C-CAS

- 4.20 Gan fod C-CAS wedi dod i ben ym mis Awst 2020, a bod y Cynnig wedi aildechrau ym mis Medi, roedd rhai heriau gweinyddol yn sgil y ffaith bod yn rhaid i ddarparwyr drafod â rhieni er mwyn cefnogi eu ceisiadau ar gyfer dwy garfan o blant. Hefyd, roedd pwysau gweinyddol ar awdurdodau lleol. Yn gyntaf, roedd angen adolygu'r plant hynny a oedd eisoes yn gymwys ac a oedd wedi bod yn manteisio ar y Cynnig cyn iddo gael ei atal dros dro ym mis Mawrth, a chysylltu â'r rhieni hyn i weld a oeddent yn dal i weithio ac eisiau parhau i dderbyn gofal plant o dan y Cynnig. Yn ail, roedd yna hefyd garfan newydd o blant a oedd bellach yn gymwys ar gyfer y Cynnig yr oedd angen ystyried eu cais. Roedd hyn yn cynnwys y rhai a fyddai wedi bod yn gymwys i ddechrau yn nhymor yr Haf 2020 a'r rhai a fyddai'n dod yn gymwys yn nhymor yr Hydref 2020.

'Roedd yn dipyn o ruthr cael popeth yn barod ym mis Awst ar gyfer derbyn y plant a ariennir gan y Cynnig ym mis Medi. Roedd yn rhaid inni hysbysu ac atgoffa rhieni a fyddai wedi cofrestru ar gyfer y Cynnig ym mis Mehefin bod angen iddynt nawr gofrestru ar gyfer mis Medi ac roedd rhaid inni helpu i hysbysu rhieni a

¹⁷ Llywodraeth Cymru Chwefror 2021: [Datganiad Ysgrifenedig: Cysoni cyfraddau cyllid ar gyfer plant 3 oed y Cyfnod Sylfaen ac elfennau gofal plant y Cynnig Gofal Plant](#)

oedd am ddechrau ym mis Mehefin bod angen iddynt gyflwyno eu cais.'
(Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr y Cynnig).

- 4.21 Mae arwyddion cynnar gan ddarparwyr bod y nifer a fanteisiodd ar y Cynnig wedi bod yn llai na'r arfer, fel cymhariaeth uniongyrchol â'r nifer a fanteisiodd ar leoedd mewn blynyddoedd blaenorol. Mae ychydig o ddarparwyr wedi nodi bod eu niferoedd wedi bod yn sylweddol is na'r nifer a gofrestrwyd gyda nhw ym mis Medi 2019. Esboniodd darparwyr, gyda nifer sylweddol o rieni yn parhau i weithio gartref, nad oes angen yr un faint o ofal plant arnynt, os o gwbl. Nododd darparwyr hefyd fod rhieni'n ochelgar o ran caniatáu i'w plentyn ddychwelyd i ofal plant ffurfiol oherwydd pryderon yn ymwneud â COVID-19 yn gysylltiedig â rhannu amgylchedd â phlant eraill a phryderon eraill am COVID-19 megis rhannu tegau â phlant eraill.

'Yr adeg hon y llynedd roedd gennym 20 o blant drwy'r Cynnig Gofal Plant, ond ar hyn o bryd dim ond pedwar sydd gennym. Rydym wedi colli swm sylweddol o incwm sydd wedi golygu bod staff wedi gorfod newid i weithio'n rhan-amser. Mae'n anodd gan ein bod yn dal i orfod talu rhent y llynedd hyd yn oed pan mai dim ond pedwar o blant oedd gennym.' (Ymatebydd i gyfweliad â darparwyr y Cynnig).

- 4.22 Nododd un darparwr mai'r prif reswm dros y gostyngiad yn nifer y plant a gefnogir gan y Cynnig yn ei leoliad oedd oherwydd nad oedd bellach yn gallu cynnig yr un gofal cofleidiol ag yr oedd cyn COVID-19. Oherwydd cyfyngiadau'r pandemig, nid ydynt yn gallu darparu gofal cofleidiol mwyach, gan fod yr ysgol wedi creu 'swigen'. Mae'r cwmp hwn mewn niferoedd wedi cael cryn effaith ar gyllid y lleoliad.

5. Gwneud gwahaniaeth i Rieni

Dylanwad y Cynnig ar rieni

Canfyddiadau allweddol

Cyrchu'r Cynnig

93% o rieni a oedd wedi cyrchu gofal plant iaith Gymraeg wedi medru cael mynediad ato.

Cymraeg

Enillodd dros hanner y rhieni a gyrchodd y Cynnig* islaw'r lefel gyflog amser llawn flynyddol ar gyfartaledd (£27,810 y flwyddyn).**



Roedd **93%** yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn cyrchu'r Cynnig. O'r rhain, defnyddiodd 40% o rieni fwy o oriau o ofal plant ffurfiol wrth gyrchu'r Cynnig.

Effaith ar rieni



Dywedodd **42%** fod y Cynnig wedi gwella eu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant mewn gwaith, dysgu a datblygu.



Dywedodd **56%** fod y Cynnig wedi cynyddu eu hyblygrwydd yn y ffordd yr oeddent yn gweithio.



Cynyddodd **13%** eu horiau gwaith ar ôl iddynt ddechrau cyrchu'r Cynnig.



Dywedodd **50%** fod y Cynnig wedi rhoi'r potensial iddynt gynyddu eu henillion.

Eiconau gan Icons8.com

*Ffynhonnell: Ffurflenni monitor data tymhorol y Cynnig Gofal Plant i Gymru

** StatsCymru, Enillion wythnosol gros cyfartalog (canolrif) y DU – rhanbarth a blwyddyn Saesneg Arolwg Rhieni Cynnig Gofal Plant 2019/20. N= 1762.

- 5.1 Mae'r adran hon yn ymchwilio i sut y mae'r Cynnig wedi effeithio ar ddefnydd rhieni o ofal plant, gan edrych yn benodol ar y newid o ddefnyddio gofal plant anffurfiol i ofal plant ffurfiol. Mae hefyd yn ymchwilio i'r effaith a gafodd y Cynnig, rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020, ar rieni a oedd yn manteisio ar y Cynnig yn ystod y cyfnod hwnnw, gan gynnwys effeithiau ar gyflogaeth ac incwm.
- 5.2 Mae'r canfyddiadau'n seiliedig ar yr ymatebion i'r arolwg ar-lein a gwblhawyd gan 1,762 o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020. Mae'r canfyddiadau hefyd yn cael eu llywio gan ddadansoddiad o'r data monitro tymhorol a gyflwynir gan bob awdurdod lleol i Lywodraeth Cymru.

Pwy sy'n manteisio ar y Cynnig

- 5.3 Gofynnwyd i rieni fel rhan o'r arolwg beth oedd eu statws cyflogaeth pan wnaethant gais am y Cynnig. O blith y 1,745 o rieni a atebodd y cwestiwn hwn, roedd dros eu hanner (52 y cant) mewn gwaith llawn-amser, roedd dros draean (39 y cant) yn gweithio'n rhan-amser. Nododd pedwar y cant o rieni (78 o ymatebwyr) eu bod yn hunangyflogedig neu'n gweithio ar eu liwt eu hunain ac roedd un y cant (22 o ymatebwyr) wedi'u cyflogi ar gontract dim oriau. Rhoddodd tri y cant arall yr ateb 'Arall' gan nodi eu bod yn cael eu cyflogi 4 diwrnod yr wythnos, eu bod ar absenoldeb mamolaeth ar hyn o bryd, eu bod yn ofalwyr llawn-amser neu wedi'u cofrestru'n anabl.
- 5.4 Gofynnwyd i rieni fel rhan o'r arolwg beth oedd statws cyflogaeth eu partner pan wnaethant gwneud cais am y Cynnig. Nododd dros dri chwarter yr ymatebwyr (80 y cant) fod eu partner yn gweithio'n llawnamser. Roedd deg y cant o'r partneriaid yn hunangyflogedig neu'n gweithio ar eu liwt eu hunain, gydag wyth y cant arall o'r partneriaid yn gweithio'n rhan-amser. Nododd pum ymatebydd fod eu partner yn gweithio ar gontract dim oriau, a rhoddodd 16 o rieni yr ateb 'Arall', gan nodi bod eu partner yn wedi'i gofrestru'n anabl, yn newid proffesiwn i fod yn hunangyflogedig neu mewn gwaith cyflogedig rhan-amser yn ogystal â bod yn hunangyflogedig.
- 5.5 Mae'r paragraffau canlynol yn ymchwilio i broffil enillion rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig. Cesglir data ar fandiau cyflog y rhieni sy'n cymryd rhan ar y ffurflenni monitro data tymhorol a ddarperir i Lywodraeth Cymru gan bob awdurdod lleol. Mae

Tabl 5.1 yn cyflwyno bandiau cyflog rhieni ar yr adeg y gwnaethant gais am y Cynnig rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020.

- 5.6 Mae dadansoddiad o fandiau cyflog rhieni yn dangos mai band cyflog gros canolrifol blynyddol yr unigolion a fanteisiodd ar y Cynnig rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020 oedd £20,800 - £25,999. Mae'r band cyflog gros canolrifol blynyddol hwn yn gyson â gwerthusiadau'r ddwy flynedd flaenorol, gan awgrymu bod proffiliau cyflog rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig yn ystod y tair blynedd gyntaf wedi aros yn gyson. Mae hyn hefyd wedi bod yn gyson is na lefel y cyflog llawnamser cyfartalog cenedlaethol a gofnodwyd ar draws pob un o'r blynyddoedd perthnasol, a gofnodwyd gan yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (Swyddfa Ystadegau Gwladol)¹⁸, sef £27,810 yn 2019.
- 5.7 Mae Tabl 5.1 yn dangos bod dros hanner (o leiaf 58 y cant) y rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig yn ennill llai na lefel y cyflog blynyddol cyfartalog cenedlaethol ar gyfer gweithwyr llawnamser. At hynny, roedd ychydig dros chwarter (29 y cant) y rhieni yn ennill llai na £15,600 ac i'r gwrthwyneb, dim ond lleiafrif (5 y cant) a oedd yn ennill £52,000 neu fwy. Felly, yn debyg i werthusiadau'r ddwy flynedd flaenorol, mae hyn yn awgrymu mai rhieni sy'n dod o fewn y grwpiau incwm canolig i incwm isel a fanteisiodd ar y cynnig yn bennaf.

¹⁸ StatsCymru [Enillion wythnosol gros cyfartalog \(canolrif\) yn ôl gwlad yn y DU - rhanbarth yn Lloegr a blwyddyn](#) [Fel ar: 1 Mawrth 2021]

Tabl 5.1. Cyfran y rhieni a gymerodd ran yn y Cynnig ym mhob band cyflog gros blyneddol ar yr adeg y gwnaethant gais am y Cynnig rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020

Bandiau cyflog gros blyneddol	Cyfran y rhieni sy'n manteisio ar y Cynnig (%)
Hyd at £5,199	2
£5,200-10,399	13
£10,400-15,599	14
£15,600-20,799	14
£20,800-25,999	15
£26,000-31,199	12
£31,200-36,399	9
£36,400-51,999	15
£52,000 neu uwch	5

N=26,537

Ffynhonnell: Ffurflenni data monitro tymhorol Cynnig Gofal Plant Cymru

Y math o ofal plant a ddefnyddiwyd

- 5.8 O blith y rhieni a ymatebodd i arolwg y Cynnig, roedd dros eu hanner (55 y cant) yn defnyddio darpariaeth gofal dydd llawn ac roedd traean (30 y cant) yn defnyddio gofal dydd sesiynol. Roedd 15 y cant arall o'r ymatebwyr yn defnyddio gofal plant y tu allan i'r ysgol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol a darpariaeth gwyliau, ac roedd 13 y cant yn defnyddio gwarchodwr plant. Roedd gweddill y rhieni yn defnyddio darparwyr gofal plant eraill fel crèche a darpariaeth chwarae mynediad agored.

Symud o ofal plant ffurfiol i ofal plant anffurfiol

- 5.9 Nod y gwerthusiad oedd deall newidiadau yn y galw gan rieni am ddarpariaeth gofal plant ffurfiol ymhlith y rhai sy'n manteisio ar y Cynnig. Nododd mwyafrif helaeth y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg hwn ar gyfer y gwerthusiad o'r drydedd flwyddyn (93 y cant) eu bod yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn iddynt ddechrau manteisio ar y Cynnig. Yn yr un modd, datgelodd canfyddiadau gwerthusiadau blyneddol ¹⁹

¹⁹ Glover, A., Harries, S., Lane, J., Lewis, S. (2018) [Gwerthuso Gweithredu Cynnar y Cynnig Gofal Plant i Gymru](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 61/2018.

a 2²⁰ o'r Cynnig fod mwyafrif helaeth y rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg (94 y cant ar gyfer blwyddyn 1 ac 89 y cant ar gyfer blwyddyn 2) wedi defnyddio gofal plant ffurfiol o'r blaen.

- 5.10 O blith y rhieni hyn a oedd yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig, roedd 40 y cant wedi cynyddu nifer yr oriau yr oeddent yn eu defnyddio ar ôl iddynt ddechrau manteisio ar y Cynnig. Ar gyfartaledd roedd y rhieni hyn yn defnyddio 10 awr yn fwy o ofal plant. Mae hyn yn awgrymu, er bod y rhan fwyaf o rieni yn defnyddio gofal plant ffurfiol cyn manteisio ar y Cynnig, roedd modd i lawer gynyddu'r oriau yr oeddent yn eu defnyddio oherwydd y Cynnig. Gostyngodd nifer cyfartalog yr oriau o ofal anffurfiol - o gyfartaledd o ychydig yn llai nag 11 awr lle roedd y plentyn yn cael gofal gan deulu a ffrindiau cyn manteisio ar y Cynnig, i gyfartaledd o ychydig dros 7 awr yr wythnos tra roeddent yn manteisio ar y Cynnig.
- 5.11 Yn absenoldeb y Cynnig, nododd hanner y rhieni a ymatebodd i'r arolwg y byddent yn defnyddio'r un nifer o oriau o ofal plant ffurfiol; a nododd 32 y cant o'r ymatebwyr i'r arolwg y byddent wedi defnyddio llai o oriau o ofal plant ffurfiol heb y Cynnig. Byddai nifer fach wedi manteisio ar fwy o oriau ffurfiol ac nid oedd llawer yn gwybod. Gwnaeth rhai rhieni sylwadau pellach i egluro eu hatebion ac esboniodd llawer o rieni nad yw cost gofal plant yn gynaliadwy yn ariannol iddynt felly byddai'n rhaid iddynt ddibynnu ar deulu a/neu ffrindiau i ofalu am eu plentyn er mwyn eu galluogi i weithio. Nododd rhieni eraill, o bwysu a mesur cost gofal plant a faint yr oeddent yn ei ennill, na fyddai'n werth gweithio pe bai'n golygu bod angen iddynt dalu am ofal plant ffurfiol oherwydd byddai'n ofynnol iddynt ddefnyddio cyfran sylweddol o'u cyflog i dalu am y gofal plant.
- 'Fyddwn i ddim yn defnyddio gofal plant ffurfiol oherwydd ei fod mor ddud.
- Byddai angen imi roi'r gorau i weithio yn hytrach na thalu am ofal plant oherwydd ni fyddai'n werth y drafferth.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).
- 5.12 Esboniodd rhai rhieni hefyd y byddai eu trefniadau gweithio'n wahanol pe na bai'r Cynnig ar gael, er enghraifft. Byddai'n rhaid iddynt leihau nifer yr oriau yr oeddent yn eu gweithio; rhoi'r gorau i weithio'n gyfan gwbl; neu ni fyddent wedi gallu dechrau gweithio yn y lle cyntaf.

²⁰ Glyn, E., Harries, S., Lane, J., Lewis, S. (2019) [Gwerthuso Gweithredu Cynnar Cynnig Gofal Plant Cymru: yr ail flwyddyn](#). Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 57/2019.

'Byddwn wedi ystyried peidio â gweithio neu weithio llai o oriau. Ni fyddem wedi gallu fforddio'r costau gofal plant. ' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Na gan na fyddwn yn gallu ei fforddio - mae'r cynllun hwn yn ardderchog i gadw rhieni mewn gwaith a sicrhau eu bod yn gallu gweithio.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Mae'n debyg y byddwn wedi gorfod defnyddio'r un nifer o oriau, fodd bynnag, gan y byddwn wedi gorfod talu amdanyn nhw fy hun yna byddai ansawdd ein bywyd fel teulu wedi dioddef yn aruthrol. Roeddem yn ddiolchgar iawn am y cynllun.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

- 5.13 Awgryma'r canfyddiadau hyn fod gallu manteisio ar y Cynnig wedi caniatáu i rieni weithio mwy o oriau ac, mewn rhai achosion, i weithio o gwbl. Trafodir effaith y Cynnig ar gyfleoedd gwaith a hyfforddiant rhieni ymhellach yn adran 5.19.

Cyfleoedd Gwaith / Hyfforddiant

- 5.14 Drwy sicrhau bod costau gofal plant yn llai o rwstr i gyflogaeth, nod y Cynnig yw gwella rhagolygon cyflogadwyedd rhieni nawr ac yn y dyfodol. Archwiliodd y gwerthusiad, felly, i ba raddau y gwnaeth y Cynnig wahaniaeth i gyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant rhieni. Mae'r adran hon yn edrych ar yr effeithiau hyn.
- 5.15 Gofynnwyd i rieni fel rhan o'r arolwg ar-lein a oeddent hwy a/neu eu partner (os yn berthnasol) yn gweithio yr un nifer o oriau tra roeddent yn manteisio ar y Cynnig o'i gymharu â chyn hynny. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr eu bod nhw (81 y cant) neu eu partner (93 y cant) yn gweithio'r un nifer o oriau ag yr oeddent o'r blaen. Mae'r canfyddiadau hyn yn gyson â gwerthusiadau blaenorol o flynyddoedd 1 a 2, a ganfu hefyd fod oriau gwaith rhieni yn weddol gyson cyn ac ar ôl manteisio ar y Cynnig. Dywedodd lleiafrif o rieni eu bod nhw (13 y cant) neu eu partner (5 y cant) wedi cynyddu eu horiau ar ôl iddynt ddechrau manteisio ar y Cynnig.
- 5.16 Nododd nifer bach o rieni nad oeddent yn gweithio cyn manteisio ar y Cynnig (2 y cant - 38 o ymatebwyr). Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dod i gasgliad ar sail hyn, ynghylch ai dyma'r unig rieni a oedd wedi dechrau gweithio'n ddiweddar, ar ôl bod yn ddi-waith o'r blaen cyn manteisio ar y Cynnig. Efallai fod rhai rhieni wedi nodi eu bod yn gweithio cyn manteisio ar y Cynnig er eu bod efallai wedi bod yn ddi-waith ychydig cyn hynny. Nid yw'n bosibl dod i gasgliad ar sail hyn ynghylch i ba raddau

yr oedd y ffaith bod y Cynnig ar gael yn eu hannog neu eu galluogi i gael gwaith. Felly, efallai y bydd angen rhagor o ymchwil i adolygu i ba raddau y mae'r Cynnig yn cymell neu'n galluogi rhieni di-waith i gael gwaith cyflogedig.

- 5.17 Fodd bynnag, cynigiodd rhieni a wnaeth sylwadau ansoddol i'r arolwg rywfaint o ddealltwriaeth ac esboniad ynghylch pa mor allweddol oedd y Cynnig o ran eu galluogi nhw, neu eu partner, i ddechrau gweithio, i barhau i weithio neu i gynyddu eu horiau gwaith.

'Mae fy ngŵr a minnau'n gweithio'n llawnamser ac roeddem yn dibynnu ar wyliau i ofalu am fy mab. Mae fy rhieni hefyd yn gweithio'n llawnamser ac roedden nhw hefyd yn defnyddio gwyliau i helpu i ofalu am fy mab, mae'r oriau gofal plant am ddim wedi ein helpu i allu fforddio aros yn y gwaith yn llawnamser! ' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Fyddwn i ddim wedi gallu gweithio heb y Cynnig Gofal Plant. Dechreuais weithio mewn swydd llawnamser oherwydd rhoddodd y Cynnig hwn y cymorth yr oedd ei angen arnaf ar gyfer fy mhlentyn. Hebdo fyddwn i ddim wedi gallu cymryd y swydd.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

- 5.18 Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg a oeddent yn teimlo bod manteisio ar y Cynnig yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt o ran y ffordd yr oeddent yn gweithio. Roedd dros hanner y rhai a ymatebodd i'r arolwg (56 y cant) o'r farn bod y Cynnig wedi cynyddu eu hyblygrwydd o ran y ffordd yr oeddent yn gweithio - cyfran debyg o ymatebion i'r rhai a gymerodd ran yn yr arolwg ar gyfer y gwerthusiad o'r ail flwyddyn. Ymhelaethodd rhai rhieni ar eu hateb. Er enghraifft, esboniodd rhai rhieni eu bod yn gallu cynyddu'r oriau yr oeddent yn eu gweithio, a oedd yn cynnwys symud o weithio'n rhan-amser i weithio'n llawnamser; esboniodd eraill eu bod yn gallu gweithio oriau ychwanegol yn ôl yr angen, a oedd yn arbennig o ddefnyddiol pan oedd yn ofynnol iddynt weithio goramser yn ystod cyfnod prysur.

'Fe wnaeth ganiatáu imi fynd yn ôl i weithio (dechrau'n rhan amser, bellach yn llawnamser) a fyddwn i ddim wedi gallu gwneud hynny heb y Cynnig! Diolch!!' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

- 5.19 Roedd rhai rhieni o'r farn bod y cyfle hwn i gynyddu eu horiau gwaith neu i weithio mwy o oriau yn ôl yr angen yn eu galluogi i wella eu perthnasoedd gwaith gan eu bod bellach ar gael i'w cyflogwr am fwy o amser yn ystod oriau busnes. Fe wnaeth

hyn, yn ei dro, wneud i'r rhieni hyn deimlo'n fwy diogel yn eu swyddi gan eu bod yn teimlo bod eu cyflogwr yn eu gwerthfawrogi'n fwy.

'Roeddwn yn gallu canolbwyntio a rhoi fy amser i'm cyflogwr pan oedd ei angen arno yn lle gorfod gorffen oherwydd gofal plant.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Roeddwn yn gallu gweithio mwy o oriau heb boeni am gydbwyso fy sefyllfa ariannol. Roedd y Cynnig Gofal Plant yn anhygoel, roedd yn caniatáu imi gael fy ystyried yn aelod gwerthfawr o staff yn hytrach na gweithiwr gwasaid gyda phlant. ' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

- 5.20 Oherwydd eu bod ar gael i weithio mwy o oriau, nododd rhai rhieni fod hyn wedi helpu i ddatblygu eu gyrfa ymhellach; drwy gael dyrchafiad gyda'u cyflogwr presennol; drwy gael swydd uwch gyda chyflogwr newydd; neu drwy eu galluogi i ystyried derbyn swydd ymhellach i ffwrdd o'r lle roeddent yn byw gan y byddent yn gallu fforddio cymudo oherwydd bod eu sefyllfa ariannol wedi gwella.

'Llwyddais i symud ymlaen yn fy ngyrfa a gwneud cais am swydd reoli gan gynyddu fy oriau bob wythnos. Heb gymorth drwy'r Cynnig, fyddwn i ddim wedi ystyried hyn oherwydd costau ychwanegol gofal plant yn sgil cynyddu fy oriau. Fe newidiodd fy sefyllfa'n llwyr a chaniatáu imi wneud rhywbeth pwysig i mi a'm gyrfa.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Roeddwn yn gallu cymryd swyddi ble roedd angen cymudo gan fod gen i arian i dalu am hynny. Cyn y Cynnig Gofal Plant roeddwn yn gyfyngedig i nifer fach o brifysgolion yn fy ardal. Fe wnaeth y cymorth ariannol ar gyfer gofal plant gynyddu fy nghyfleoedd gwaith a gwneud fy ngyrfa yn hyfyw.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Roeddwn yn gallu ymgeisio am swyddi ymhellach i ffwrdd. Roedd y cyflog yr un fath, ond fe wnaeth wella fy ngyrfa a'm CV gan gynyddu fy mhotensial i ennill cyflog yn ddiweddarach ' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

- 5.21 Esboniodd y rhieni hefyd fod y Cynnig yn caniatáu iddynt fod yn fwy hyblyg o ran eu patrymau gwaith, er enghraifft cywasgu'r oriau roeddent yn eu gweithio er mwyn gweithio llai o ddyddiau. Neu, i'r gwrthwyneb, lledaenu'r oriau yr oeddent yn eu gweithio dros ragor o ddyddiau. Mewn llawer o achosion, i'r rhieni hyn, mae cael yr hyblygrwydd hwn i newid eu patrymau gwaith yn eu galluogi i dreulio mwy o amser gwerthfawr gyda'u teulu.

'Roedd yn golygu y gallwn weithio sifftiau byrrach, felly doeddwn i ddim yn gweithio oriau anghymdeithasol. Cyn hynny roeddwn i'n gweithio sifftiau 12 awr er mwyn ennill cyflog drwy weithio llai o ddiwrnodau. Nawr gallaf weithio mwy o ddiwrnodau ond dim ond 8 awr y dydd felly rydw i adref erbyn amser te a gallaf fynd â nhw i'r ysgol/meithrinfa.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

I rieni eraill, roedd cael mwy o hyblygrwydd gyda'u horiau gwaith yn golygu y gallent weithio mwy o oriau yn yr wythnos ac yn ystod y dydd yn hytrach na gorfod gweithio'r oriau hyn gyda'r nos ac/neu ar benwythnosau, fel yr oeddent wedi bod yn ei wneud o'r blaen.

'Cyn cael y Cynnig Gofal Plant roeddwn yn gweithio bob penwythnos er mwyn gallu gofalu am fy mhientyn yn ystod yr wythnos. Roedd hyn yn golygu nad oedden ni byth yn cael diwrnod gyda'n gilydd fel teulu. Roedd y diwrnod ychwanegol yn y feithrinfa yn golygu ein bod yn gallu cael 1 diwrnod gyda'n gilydd fel teulu ar y penwythnos.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

- 5.22 Mewn rhai achosion, roedd cael mwy o hyblygrwydd gyda'u horiau gwaith yn golygu y gallai rhieni weithio oriau tebyg i'w partner yn hytrach nag oriau gwahanol er mwyn galluogi un rhiant i ofalu am eu plentyn. Roedd hyn yn galluogi'r teulu i dreulio mwy o amser gwerthfawr gyda'i gilydd.

'Roeddem yn gallu gweithio ar yr un pryd gan fod y plant yn y feithrinfa a'r ysgol yn llawnamser, ond cyn hynny roedd yn rhaid inni sicrhau bod 1 ohonom gartref bob amser.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

- 5.23 I rieni a oedd wedi bod yn dibynnu ar aelodau'r teulu i ofalu am eu plant cyn iddynt allu manteisio ar y Cynnig, roedd y Cynnig wedi lleddfu'r pwysau hwn ar aelodau'r teulu. Mae hefyd wedi lleddfu'r pwysau ar rieni oherwydd nad oedd yn rhaid iddynt boeni am drefnu i aelodau'r teulu ofalu am eu plant mor aml, os o gwbl. At hynny, nododd rhieni ostyngiad cyffredinol mewn lefelau straen gan nad oeddent bellach yn gorfod dod o hyd i atebion i broblemau gofal plant. Mewn rhai achosion, roedd hyn yn caniatáu iddynt ganolbwyntio mwy ar eu gwaith, gan eu galluogi i gynyddu eu cynhyrchiant yn y gwaith.

'Doeddwn i ddim yn poeni am arian nac yn ceisio meddwl am ffyrdd gwahanol o gael gafael ar ofal plant. Llawer llai o straen.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Tawelwch meddwl o ran gallu fforddio gofal plant, felly roeddwn i'n teimlo llai o straen ac yn fwy cynhyrchiol.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

5.24 Gofynnwyd i'r rhai a ymatebodd i'r arolwg hefyd a oeddent yn teimlo bod manteisio ar y Cynnig yn gwella eu cyfleoedd ar gyfer hyfforddiant yn y gwaith a gweithgareddau dysgu a datblygu eraill. Dywedodd ychydig dros ddwy ran o bump (42 y cant) o'r rhieni a ymatebodd fod y Cynnig wedi gwella'r cyfleoedd hyn, o'i gymharu ag ychydig llai na hanner (48 y cant) a ddywedodd nad oedd manteisio ar y Cynnig wedi helpu i wella eu cyfleoedd hyfforddi neu ddatblygu.

5.25 Esboniodd y rhieni fod manteisio ar y Cynnig yn rhoi mwy o amser iddynt ymroi i'w gwaith, a oedd o ganlyniad yn cyflwyno cyfleoedd i gael mynediad at hyfforddiant a datblygiad, megis mynychu sesiynau hyfforddi, ymgymryd â chymwysterau a derbyn mwy o gyfrifoldebau yn y gwaith.

'Roeddwn yn gallu mynd i bethau y tu allan i'm horiau gwaith arferol lle y byddwn fel arall wedi bod yn gofalu am fy mhlentyn.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Roeddwn i'n cwblhau ILM lefel 5 drwy'r gwaith a rhoddodd y diwrnod ychwanegol yr oedd fy mab yn y feithrinfa yr amser imi gwblhau fy aseiniadau. Roeddwn hefyd yn gallu mynd i'r gwaith ar wahanol ddiwrnodau pe bai angen er mwyn cael hyfforddiant a mynychu cyfarfodydd pwysig.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Mae cael fy ngwerthfawrogi wedi rhoi cyfle i mi ddechrau astudio ar gyfer gradd yn ogystal â chael mwy o gyfrifoldebau yn y gwaith.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

Incwm yr aelwyd ac arian gwario

5.26 Gofynnwyd i rieni, fel rhan o'r arolwg ar-lein, a oedd manteisio ar y Cynnig wedi rhoi'r potensial iddynt gynyddu eu henillion. Dywedodd hanner (50 y cant) y rhieni a ymatebodd i'r cwestiwn hwn fod y Cynnig wedi rhoi'r potensial iddynt gynyddu eu henillion.

5.27 Esboniodd rhieni fod manteisio ar y Cynnig wedi arwain at ostyngiad yn eu costau gofal plant neu'n golygu eu bod yn gallu gweithio mwy o oriau, gan gynyddu eu hincwm, oherwydd bod y Cynnig yn gwneud eu trefniadau gofal plant yn haws.

'Fe wnaeth fy atal rhag cronni dyled ar gardiau credyd yr oeddwn yn eu defnyddio i dalu am ofal plant'

'Byddem wedi bod angen y gofal plant beth bynnag oherwydd oriau gwaith, ond roedd yn golygu bod ein bil gofal plant wedi lleihau'n sylweddol yn ystod y cyfnod yr oeddem yn ei ddefnyddio.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Roeddwn yn gallu gweithio diwrnod ychwanegol. Roedd arian yn dynn iawn cyn hynny gan fod yn rhaid imi dalu am ofal plant i ddau. Roedd hyn yn fwy na fy nghyflog dyddiol! ' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Llwyddais i leihau faint o dalebau gofal plant yr oedd angen imi eu prynu, ac felly roeddwn yn mynd â mwy o gyflog adref (fodd bynnag, ni wnaeth fy nghyflog newid.)' (Ymatebydd arolwg rhieni'r Cynnig).

- 5.28 At hynny, roedd cael y cynnydd hwn mewn incwm yn galluogi rhieni i allu fforddio prynu pethau a oedd yn gwella ansawdd eu bywyd.

'Oherwydd ein bod yn gwario llai ar ofal plant, roeddem yn gallu cynilo mwy.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Rydyn ni nawr yn gallu fforddio rhedeg 2 gar er mwyn caniatáu imi weithio mwy a gollwng/casglu'r plant yn haws ac yn gyflymach.' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

'Roedd y Cynnig hwn yn help mawr i ni fel teulu, gan nad oes gennym deulu sy'n byw'n agos a allai gynnig gofal plant am ddim e.e. neiniau a theidiau. Roedd yn caniatáu inni fynd ar deithiau ar benwythnosau ac ati fel teulu oherwydd roedd gennym fwy o arian sbâr bob mis yn lle gorfod talu £700 am ofal llawnamser bob mis fel yr oeddem yn ei wneud cyn y Cynnig.' (Wedi'i gyfieithu o'r Gymraeg) (Ymatebydd arolwg rhieni'r Cynnig).

- 5.29 Crynhodd un rhiant pa mor bwysig oedd y Cynnig o ran ei galluogi i ddechrau gweithio a chael incwm, gan wella ei hiechyd meddwl.

'Es i o fod yn fam a oedd yn aros gartref heb ddim incwm personol, yn teimlo'n unig iawn ac yn isel fy ysbryd, i weithio mewn swydd llawnamser yr wyf yn gwirioni arni. Mae cael fy incwm fy hun wedi caniatáu imi dalu dyledion a darparu pethau hanfodol i'r plant, mae dychwelyd i'r gwaith a chael rheolaeth dros fy sefyllfa ariannol unwaith eto wedi gwneud rhyfeddodau i'm hiechyd meddwl. ' (Ymatebydd i arolwg rhieni y Cynnig).

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a ariennir gan y Cynnig

- 5.30 Lle mae iaith y lleoliad wedi'i nodi yn y data monitro tymhorol, ar gyfartaledd, roedd 30 y cant o'r plant a gefnogwyd gan y Cynnig yn cael darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg, rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020, gyda 10 y cant arall yn cael gofal plant dwyieithog. Fodd bynnag, mae angen bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffigur hwn gan fod y wybodaeth am iaith lleoliadau ond ar gael ar gyfer ychydig dros hanner (55 y cant) y lleoliadau.
- 5.31 Gofynnodd yr arolwg i rieni a oeddent eisiau cael darpariaeth cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog ar gyfer yr oriau a ariennir, ac a oedd yn bosibl iddynt gael hynny. Roedd ychydig dros chwarter y rhieni eisiau darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a/neu ddwyieithog (28 y cant). O blith y rhieni hyn, roedd y mwyafrif llethol yn gallu cael ar y ddarpariaeth hon (roedd 93 y cant o'r rhai a oedd am gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg a 92 y cant o'r rhai a oedd am gael darpariaeth ddwyieithog yn gallu gwneud hynny). Mae hyn yn awgrymu, yn gyffredinol, bod y cyflenwad o ddarpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog wedi bodloni'r galw am y ddarpariaeth hon gan y mwyafrif o rieni a fanteisiodd ar y Cynnig.
- 5.32 Dim ond 32 o rieni (dau y cant) a nododd eu bod eisiau darpariaeth cyfrwng Cymraeg ond nad oeddent yn gallu cael gafael ar ddarpariaeth o'r fath. Roedd sylwadau pellach gan rieni yn egluro eu hatebion yn awgrymu sawl rheswm pam nad oedd y rhieni hyn yn gallu cael y ddarpariaeth Gymraeg yr oeddent ei eisiau. Y rhesymau oedd bod prinder cyffredinol o leoliadau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn eu hardal leol; diffyg darpariaeth gofal plant cofleidiol cyfrwng Cymraeg yn lleol i'r ddarpariaeth FPN cyfrwng Cymraeg yr oedd eu plentyn hefyd yn ei mynychu; neu nid oedd yr oriau a gynigiwyd gan y lleoliadau gofal plant Cymraeg lleol yn addas ar gyfer anghenion y rhieni. Roedd y mater olaf yn tueddu i fod yn wir os oedd angen gofal plant llawnamser ar rieni ond nad oedd unrhyw leoliadau gofal dydd llawn cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, dim ond Cylch Meithrin a oedd yn cynnig gofal sesiynol. Noder, o blith y 32 o rieni a ddywedodd eu bod am gael mynediad at ddarpariaeth Gymraeg ond nad oeddent yn gallu gwneud hynny, dywedodd 7 rhiant eu bod yn gallu cael darpariaeth ddwyieithog. Mae Llywodraeth Cymru yn darparu

buddsoddiad ychwanegol sylweddol i gryfhau darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg a allai ddatrys y mater hwn yn y blynyddoedd i ddod.²¹

Mynediad at ofal plant rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020

- 5.33 Fel y nodwyd uchod, ni weithredodd y Cynnig yn ôl yr arfer rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020. Yn ystod y cyfnod hwn roedd rhai rhieni a gyflogwyd mewn swyddi gweithwyr hanfodol yn gymwys i gael gofal plant a ariennir a gefnogwyd gan y Cynllun Cymorth Gofal Plant drwy gyfnod y Coronafeirws (C-CAS), ac felly hefyd blant agored i niwed. Fodd bynnag, nid oedd rhieni a oedd wedi bod yn manteisio ar ofal plant a ariennir drwy'r Cynnig hyd at fis Mawrth 2020 ond nad oeddent yn cael eu hystyried yn weithwyr hanfodol neu nad ystyriwyd bod eu plentyn yn agored i niwed, yn gallu manteisio ar ofal plant a ariennir rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020 oherwydd bod gofal plant ar gau i bawb heblaw gweithwyr hanfodol a phlant agored i niwed.
- 5.34 Gofynnwyd i'r rhieni a gymerodd ran yn yr arolwg, a oedd wedi bod yn manteisio ar y Cynnig tan fis Mawrth 2020, a oeddent hefyd wedi manteisio ar unrhyw fath o ofal plant a ariennir gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020. Nododd ychydig dros 15 y cant eu bod wedi bod yn gymwys ar gyfer C-CAS ac i lawer o'r rhieni hyn roedd parhad gofal plant a ariennir a'r newid o'r Cynnig Gofal Plant i C-CAS yn syml - gweler hefyd adroddiad gwerthuso C-CAS. Nododd pedwar y cant arall o'r ymatebwyr eu bod wedi cael gofal plant a ariennir yn ystod y cyfnod hwn ond nad oeddent yn siŵr beth oedd yr enw arno.
- 5.35 Nododd ychydig dros draean (34.6 y cant) eu bod wedi manteisio ar y Cynnig yn ystod haf 2020, ac roedd y mwyafrif o'r rhain wedi manteisio ar y Cynnig ar ôl 22 Mehefin, pan allai rhieni cymwys a oedd wedi manteisio ar y Cynnig cyn 31 Mawrth ddychwelyd i'w lleoliad gofal plant pe bai wedi ailagor. Nododd ychydig yn llai na hanner yr ymatebwyr (49.5 y cant) na chawsant ragor o ofal plant a ariennir ar ôl mis Mawrth 2020. Cymysg oedd yr adborth gan rieni. Dywedodd y mwyafrif eu bod wedi gofalu am eu plant eu hunain tra roeddent yn gweithio gartref. Nododd rhai nad oeddent yn wynebu unrhyw heriau gofal plant ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn gan eu bod ar ffyrlo (ar y Cynllun Cadw Swydd drwy gyfnod y Coronafeirws) neu, mewn nifer fach o achosion, wedi cael eu diswyddo. Nododd ambell

²¹ Am fanylion gweler [Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr adroddiad blynyddol 2019 i 2020](#), tudalen 8.

ymatebydd, fodd bynnag, fod y diffyg gofal plant a oedd ar gael rhwng mis Ebrill a mis Awst 2020 wedi tarfu'n sylweddol ar eu bywyd gwaith. Ymhlith yr enghreifftiau roedd rhieni hunangyflogedig a oedd yn ei chael hi'n anodd cynnal eu busnes a gofalu am eu plant gartref ac un rhiant a oedd yn gorfod cwtogi ei oriau gwaith i weithio'n rhan-amser oherwydd cyfrifoldebau gofal plant.

6. Casgliadau ac Argymhellion

- 6.1 Mae'r bennod olaf hon yn dwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd o'r ffordd y gweithredwyd y Cynnig yn ystod y cyfnod o fis Medi 2019 i fis Mawrth 2020 a'i berfformiad yn erbyn yr amcanion a'r canlyniadau arfaethedig. Mae'r bennod hefyd yn dwyn ynghyd ganfyddiadau'r gwerthusiad ynghylch yr effaith a gafodd COVID-19 ac atal y Cynnig dros dro yn sgil hynny, ar awdurdodau lleol yn ogystal â darparwyr gofal plant a rhieni a gymerodd ran yn y Cynnig.

Casgliadau cyffredinol

- 6.2 Cafodd y pandemig COVID-19 gryn effaith ar ddarparu'r Cynnig a'r nifer a fanteisiodd arno yn ystod 2020. Yn sgil addasiadau i'r ffordd y darparwyd y Cynnig yn ystod 2020, cyfyngwyd ar yr hyn y gellid ei adolygu yn y gwerthusiad eleni. Ailgyfeiriwyd y rhan fwyaf o'r ffocws gwerthuso a'r adnoddau tuag at C-CAS a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod pan gafodd y Cynnig ei atal dros dro (gweler hefyd y gwerthusiad o C-CAS).
- 6.3 O ganlyniad, nid yw'n bosibl defnyddio canfyddiadau'r gwerthusiad hwn i lunio cymariaethau â'r canfyddiadau a adroddwyd yn adroddiadau gwerthuso'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n cynnig cipolwg ar yr hyn a ddarparwyd yn ystod y cyfnod heriol hwn ac yn tynnu sylw at rai gwersi o hyn i lywio'r broses o ddarparu'r Cynnig yng Nghymru yn y dyfodol.

Cyfathrebu â rhieni a darparwyr

- 6.4 Mae'n ymddangos bod ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Cynnig ymhlith rhieni cymwys wedi cynyddu'n raddol dros amser ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cyfraddau a fanteisiodd arno yn ystod y cyfnod o fis Medi 2019 i fis Mawrth 2020 fel yr adroddwyd gan awdurdodau lleol. Fodd bynnag, erys rhai o'r heriau cyfathrebu a gofnodwyd mewn adroddiadau gwerthuso blaenorol y Cynnig Gofal Plant. Y brif her yw cyfathrebu gwybodaeth sy'n ymwneud â gwahanol rannau'r Cynnig, a'r oriau gofal plant a ariennir y mae gan blant cymwys yr hawl i'w cael mewn perthynas â'r oriau o ddarpariaeth FPN sydd ar gael i rieni.
- 6.5 Daeth adroddiad gwerthuso blwyddyn 2 i'r casgliad 'nid lefel y galw nac argaeledd cyflenwad yw'r brif her sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth yn ystod y gwyliau, ond lefel y

ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, ynghyd â rhai darparwyr, ynghylch nifer yr wythnosau o ddarpariaeth y mae hawl gan blant cymwys iddynt'. Nododd llawer o'r awdurdodau lleol eu bod wedi gwneud mwy o ymdrechion i ddarparu gwybodaeth bellach i rieni am y gofal plant a ariennir sydd ar gael yn ystod gwyliau'r ysgol. Oherwydd i'r Cynnig gael ei atal dros dro dros wyliau'r Pasg a gwyliau'r haf, ni fu'n bosibl darganfod a yw hyn wedi arwain at unrhyw ostyngiad yn y dryswch a adroddwyd mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, nododd rhai awdurdodau lleol, yn eu profiad hwy, fod llawer o rieni a darparwyr yn debygol o barhau i fod yn ansicr ynghylch hawliau'r Cynnig yn ystod gwyliau ysgol. Mae hyn, yn eu barn nhw, oherwydd nad yw llawer o ddarparwyr a rhieni yn meddwl am hyn nes bod gwyliau'r haf ar eu gwarthau.

Argymhelliad 1 - Dylai awdurdodau lleol barhau i ddarparu'r wybodaeth ychwanegol a gynigiwyd eisoes i rieni a darparwyr sy'n ymwneud â chyfnodau gwyliau'r ysgol.

- 6.6 Mae canfyddiadau'r gwerthusiad hwn yn dangos bod rhieni cymwys yn parhau i fod yn ddryslyd ynghylch nifer yr oriau o ofal plant a ariennir y mae ganddynt hawl iddynt mewn perthynas â nifer yr oriau o FPN sydd ar gael iddynt yn eu hardal leol.

Argymhelliad 2 - Efallai y bydd angen i Lywodraeth Cymru adolygu ymhellach sut y mae'n codi ymwybyddiaeth rhieni o'r Cynnig er mwyn rhoi mwy o bwyslais ar y ffordd y mae dwy elfen y Cynnig yn cyd-fynd â'i gilydd.

Darparu'r Cynnig a'r nifer sy'n manteisio arno

- 6.7 Roedd y ffordd y darparwyd y Cynnig a'r nifer a fanteisiodd arno rhwng mis Medi 2019 a mis Mawrth 2020, ym marn cynrychiolwyr awdurdodau lleol a darparwyr gofal plant, yn unol â'r disgwyl. Nid adroddwyd unrhyw broblemau mawr nac annisgwyl ar gyfer y cyfnod hwn. Fodd bynnag, erys rhai o'r heriau o ran darparu'r Cynnig a nodwyd mewn adroddiadau gwerthuso blaenorol, megis asesu cymhwystra rhieni hunangyflogedig, yn enwedig y rhai sy'n cyflwyno cyfrifon cymhleth a/neu bortffolio cyflogaeth ac incwm fel tystiolaeth o gymhwystra.
- 6.8 Fodd bynnag, gwnaed cynnydd mewn perthynas â chefnogi rhai o'r heriau hyn gan gynnwys gweithdy gan CThEM a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynrychiolwyr awdurdodau lleol. Mae cymorth o'r math hwn wedi cael ei groesawu

gan y mwyafrif o'r cynrychiolwyr awdurdodau lleol a gafodd eu cyfweld gyda rhai yn mynegi diddordeb mewn cael mwy o'r un math o beth yn y dyfodol.

